YR YMOFYNYDD.

RHIF 49.] MEDI, 1851. [CYF IV.

"PROFWCH BOB PETH; DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

"Mewn Cyhoeddiad a broffesa fod yn RHYDD ni ellir disgwyl i ni fod yn atebol am gywirdeb syniadau ein Gohebwyr."--GOL.

YR EGLWYS YN YR ANIALWCH.

ISRAEL YN YMBABELLU WRTH ODRE MYNYDD SINAI—PABELL Y CYFARFOD—A'R GYFRAITH A RODDWYD TRWY DDWYLAW MOSES.

NID oes neb, ar a wyddom ni am danynt, yn gwadu na fu yr Israeliaid, ar ol eu mynediad allan o'r Aipht, yn preswylio am flynyddau lawer mewn pebyll yn anialweh Arabia, cyn iddynt gymmeryd meddiant o wlad Canaan. Yn ol ein barn ni, y mae'r ffaith hanesyddol tu hwnt i amheuaeth. Y mae hyd yn oed anghredinwyr yn cydnabod ei bod yn hen draddodiad ag oedd wedi ei throsglwyddo i lawr o genhedlaeth i genhedlaeth. Ond y mae genym ni well a sicrach sail ar y matter na thraddodiad cenhedlaethol. Mae genym hanes ag sy'n dwyn arno briod-nodau gwironedd. Ni wna'r ffeithiau hanesyddol a ddygir i'r amlwg o bryd i bryd, ddim ond cadarnhau yr hanes hwn. Ni chaniateir i ni fanylu yn bresenol. Ond ymhlith y pethau rhyfedd ag sydd ar glawr hanes ynghylch cenedl Israel, nid oes dim yn fwy hynod, nac yn cael ei gadarnhau yn fwy gan ffeithiau hanesyddiaeth foreuol y byd a'r genedl hon, nag ydyw eu hymdaith trwy'r anialwch, o'r Aipht i Ganaan. Myn rhai anghredinwyr nad ydyw ddim amgen na ffug-chwedl a thraddodiad cenhedlaethol; ond darllener yr hanes yn fanwl a diragfarn, ac fe welir nas gall fod ddim o'r fath. Yr oedd yr Israeliaid bob amser yn credu ei fod wedi ei ysgrifenu gan Moses ar y pryd; ac y mae yr adroddiadau a wneir ynddo am bersonau, amseroedd, a llefydd neillduol, y fath ag sy'n dwyn cryfach profion o'i fod wedi ei ysgrifenu felly na dim hanes ag sydd wedi cyrhaeddyd attom. Darllener cof-hanes y cenhedl-aethau a geir yn Genesis v., x., xi., xxxvi., xlvi., ac yn Exod. vi., a'r fath hanes a roddir o rifiad y bobl yn eu gwahanol lwythau yn Numeri i., ii., xxvi.; ac o'r gwahanol amseroedd a llefydd eu hymdeithiad a geir yn Num. xxxiii.; yna y gwelir mai nid ffug-chwedl ydyw yr hanes hwn; ond i'r gwrthwyneb bod y nodau yn gweddu i'r fath hanesion ag oeddent wedi eu cyfansoddi gyda golwg at wirionedd a chywirdeb. Ar y golygiadau hyn

ymddengys hanes Moses yn llawer amgenach na hanes Dychweliad y deng mil gan Xenophon, nag ychwaith Hanes Rhyfel y Peloponesus gan Thucidides. Mewn gair mae'r hanes Foesenaidd yn dwyn nodau gwirionedd drwyddo i gyd.

Pan oedd Israel yn eu gwersyllfa wrth odre mynydd Sinai, yno i dderbyn y gyfraith trwy ddwylaw Moses, nid oedd Pabell y Cyfarfod etto wedi ei gosod. Ond yr oeddent yn awr ar gael gwybod pa bethau yr oedd Duw yn bwriadu ar eu cyfer. Yn fuan, wedi sefydlu y babell honno, trwy arwyddion a rhyfeddodau, dygwyd yr Israeliaid i edrych arni, fel canol-bwynt eu hundeb. Ac allan o'r babell honno y gweinyddid y gyfraith iddynt, tra y teithient trwy yr Anialwch ac wedi iddynt gymmeryd meddiant o wlad yr addewid. Yr oedd yr Israeliaid yn awr yn credu, ac wedi cael achos i gredu, eu bod hwy dan arweiniad yr Hollalluog. Yr oeddent "wedi dyfod at y mynydd teimladwy ag oedd yn llosgi gan dân a chwmwl, a thywyllwch a thymestl, a llef geiriau, &c." Ac i ba ddiben oedd y genedl a waredwyd o gaethiwed yr Aipht, yn aros yn eu gwersyllfa wrth odre'r mynydd? Ië, i ba ddiben, os nad i dderbyn cyfraith oddiwrth eu Gwaredwr Hollalluog, trwy law ei was Moses?

Y mae'r geiriau blaenaf yn rhoddiad y gyfraith, yn teilyngu sylw difrifol. Gadawer i ni eu cymmell i ystyriaeth ein darllenwyr Trindodaidd. Geiriau ydynt ag sy'n dynodi, mewn iaith bendant a chynnwysfawr, alwedigaeth uchel y genedl Iuddewig, a diben mawr eu hymneilluad. *Myfi yw Jehovah dy Dduw, yr hwn a'th ddug di allan o wlad yr Aipht, o dy y caethiwed.* NA FYDDED IT' DDUWIAU ERAILL GER FY MRON I." Ni wyddai Moses a'r Eglwys yn yr anialwch ddim am drindod o bersonau dwyfol; yn fwy na'r Proffwydi a ddaethant ar eu hol hwynt, y rhai a anfonodd Duw o bryd i'w gilydd at blant Israel i'w hyfforddi yn y gwirionedd. Mae distawrwydd Moses a'r Proffwydi am y fath athrawiaeth—athrawiaeth a fuasent yn sicr o'i dysgu pe y gwyddent am dani, ac y credent ei bod yn wirionedd —yn dystiolaeth bendant a phenderfynol yn erbyn athrawiaeth y Drindod.

Nid oes modd i wadu'r ffaith, mai cenedl ag oedd wedi eu neilluo i fod yn Undodiaid proffesedig yn ngwydd y byd, oedd y genedl a waredwyd, trwy foddion mor rhyfeddol, o'u caethiwed yn yr Aipht. Gan nad pa faint o *gysgodau* a ddywedir eu bod yn cael eu gosod ger eu bron yn eu gwasanaeth crefyddol, y rhai nid oeddent yn deall eu hystyr, caniateir hyd yn oed gan Drindodiaid, fod hyn yn cael ei ddysgu iddynt yn eglur ac yn bendant; sef, *mai un Duw sydd, ac nad oes arall ond efe.* Undod Duw oedd prif bwngc y grefydd Iuddewig. Dyma'r gwirionedd mawr ag y galwyd Abraham i fod yn dyst drosto. Er mwyn cadarnhau y gwirionedd hwn yr holltwyd y môr côch; a dyma'r un gwirionedd gogoneddus, ar yr amgylchiad sydd dan ein sylw, yn cael ei gyhoeddi i'r bobl gyda sain udgorn, a tharanau Mynydd Sinai. "NA FYDDED IT' DDUWIAU ERAILL GER FY MRON I." Drindodiaid, gwrandewch ar leferydd Duw ei hun! Ac etto, ar ol hir flynyddau o ymdaith trwy'r anialwch, ac wedi cwblhau y trefniadau cenhedlaethol ac eglwysig, dyma'r un gwirionedd yn cael ei gyhoeddi yn awdurdodol allan o Babell y Cyfarfod; "*Clyw, O Israel, yr Arglwydd dy Dduw, un Arglwydd yw.*" Y sawl a deimlant bwysigrwydd yr athrawiaeth, a welant y cymmwysder o'r gwyrthiau a wnaethpwyd er mwyn parotoi y genedl Undodaidd yma, a'i sefydlu yn ngwlad yr addewid.

Ni chaniateir i ni ar hyn o bryd i roddi rhesymau dros ddwyfol awdurdod y grefydd Iuddewig, oddiwrth ansawdd a ragoroldeb y gyfraith, a'i chym-

mwysder at yr amgylchiadau; ac ystyried y gyfraith dan y tri dosparth—mewn perthynas a chrefydd a moesoldeb—seremoniau ac addoliad cyhoeddus—a gwladwriaethol. Nis gallwn yn awr gymaint a rhoddi crynodeb o'r gyfraith Iuddewig yn ei gwahanol rannau. Rhaid i ni gyfeirio y darllenydd at ysgrifeniadau Moses, lle y maent wedi eu gosod i lawr yn fanwl ac yn gyflawn.

Ond nis gallwn adael i'r testun fyned heibio heb sylwi—fod y gyfraith yn ei gwahanol rannau—gwladwriaethol, seremoniol, a chrefyddol—ar y cyfan mor hollol wahanol oddiwrth ddim ag oedd yn yr Aipht, neu wledydd eraill y pryd hyny, fel nas gallasai Moses eu benthyca o'r Aipht, lle y cafodd ei ddwyn i fynu, nac oddiwrth un genedl arall. Rhaid ynte fod Moses naill ai wedi ei dyfeisio ei hunan, neu wedi ei derbyn oddiwrth Dduw.

O herwydd amryw ystyriaethau ymddengys ei fod yn anmhosibl i Moses ei dyfeisio o'i ben ei hun. Braidd mae'n gredadwy fod peth ag oedd mor fawr, ac mor newydd, yn ffrwyth dyfais dyn, a'r fath ddyn a Moses, os twyllwr ydoedd. Y mae hefyd yn annghyson a chymeriad a character Moses, iddo ef wneuthur defnydd o dwyll a chelwydd. Nid ymddengys fod un annogaeth i'w gymmell ef i wneuthur y fath beth. Heblaw, yr oedd rhoddiad y gyfraith, a sail ei derbyniad gan y bobl, yn cael eu gosod i ymddibynu ar y ffaith, fod Duw wedi eu gwaredu a'u harwain hyd yma, mewn modd gwyrthiol. Nis gallasai Moses ddisgwyl iddynt dderbyn ei gyfraith ac ufyddhau iddi, ar sail ag a wyddent hwy nad ydoedd ond twyll a chelwydd. Ond gan i'r bobl dderbyn y gyfraith ar sail y gwyrthiau—y rhai y gwyddent yn dda pa un ai yr oeddent wedi cymeryd lle, ai nad oeddent—y mae yn canlyn fod y cyfryw wyrthiau wedi cymeryd lle, a bod Moses wedi ei anfon oddiwrth Dduw, a'i ddysgu a'i awdurdodi i roddi'r gyfraith i Israel.

Yn yr amgylchiadau, y mae'n amlwg, na fuasai neb ond dyn gwallgofus i gymeryd arno i arwain Israel trwy'r anialwch, o'r Aipht i Ganaan, oddieithr ei fod yn teimlo fod gallu Duw gydag ef.

Yn mhen oesoedd lawer wedi amser Moses, coffeir yn barchus am dano mewn cysylltiad a'r waredigaeth allan o gaethiwed yr Aipht, a rhoddiad y gyfraith. Ac yr oedd y gwyliau blynyddol, o genhedlaeth i genhedlaeth yn goffadwriaeth barhâus o'r hyn a wnaeth Duw drwyddo ef dros bobl Israel; ac felly, yn dwyn tystiolaeth o oes i oes, nid yn unig dros henafiaeth ysgrifeniadau Moses, ond hefyd dros wirionedd yr hanes a gynnwysir ynddynt ynghylch sefydliad y grefydd Iuddewig.

Er engrhaifft, Salm lxxvii. 11,—15, 20—"Cofiaf weithredoedd yr Arglwydd; ïe, cofiaf dy wrthiau gynt." * * * "Dy ffordd, O Dduw, sydd yn y cyssegr, pa Dduw mor fawr a'n Duw ni! Ti yw y Duw sydd yn gwneuthur rhyfeddodau; dangosaist dy nerth yn mysg y bobloedd. Gwaredaist a'th fraich dy bobl, meibion Jacob a Joseph. Y dyfroedd a'th welsant, O Dduw, y dyfroedd a'th welsant; hwy a ofnasant: y dyfnderau hefyd a gynhyrfwyd. * * * Tywysaist dy bobl fel defaid trwy law Moses ac Aaron." Ac etto gannoedd o flynyddau wedi amser Asaph, ni gawn y cynferthyr Stephan (Act. viii. 38), yn dywedyd am Moses: "Hwn yw efe a fu yn yr Eglwys yn y diffeithwch, gyda'r angel a ymddiddanodd ag ef yn mynydd Sinai, ac â'n tadau ni; yr hwn a dderbyniodd ymadroddion bywiol i'w rhoddi i ni." Ac nis gall fod yn anhysbys i'r darllenydd, fod ein Harglwydd Iesu Grist bob amser yn llefaru am Moses gyda chymeradwyaeth a pharch neillduol. Afreidiol amlhâu engrheifftiau.

Hyderwn nas gwelir ein bod yn myned allan o'r pwngc, trwy ymhelaethu ychydig ar swydd a nodweddiad Moses, a'i hawl i gael ei gyfrif yn gennad oddiwrth Dduw.

Pe buasai y sefydliad Iuddewig o ddyfeisiad dynol, gallesid disgwyl y buasai yn dwyn rhyw gyffelybrwydd i'r hyn oedd gan genhedloedd eraill ar yr amser hyny; ond wrth ei gydmarn a hwynt yr ydym yn canfod ei fod yn hollol wahanol, hyd yn oed yn y pethau lleiaf eu pwys, megys y defodau a'r seremoniau; ac o ran y pethau a berthynant i grefydd a moesoldeb, y mae nid yn unig yn gwbl wahanol, ond hefyd yn rhagori, tuhwnt i bob cydmariaeth, ar ddim ag oedd gan genhedloedd yr oes honno, neu oesoedd eraill. Pa un o'r crefyddau Paganaidd oedd yn dysgu *mai un Duw sydd, meddianydd a llywodraethwr nef a daear?* Neu a osodai hyn yma i lawr fel iawn rëol moesoldeb, "Car yr Arglwydd dy Dduw a'th holl galon, ac a'th holl enaid, ac a'th holl nerth; a char dy gymydog fel ti dy hun?"

Buasai twyllwr yn dyfeisio cyfraith a fyddai yn debygol i foddio'r bobl, a'i amcan fyddai i'w denu i ufydd-dod iddo trwy ei ffurfio yn unol â'u harchwaeth a'u tueddiadau fel cenedl. Ond fe ymddengys oddiwrth yr hanes, fod y genedl wrthnysig hon ymron yn mhob oes, oddiar eu sefydliad hyd at y gaethglud yn Babylon, yn chwannog i syrthio a myned ar ôl defodau ac arferion eu cymydogion. Yr unig beth ag oedd yn eu cadw yn ufydd, oedd eu cred yn y gwyrthiau a wnaeth Duw er sefydlu a chadarnhau cyfraith Moses; a'r cospedigaethau ag oeddent yn cael eu bygwth ar droseddwyr.

Buasai twyllwr, gan hynny, i gynnyg cyfraith wahanol i'r hon ydoedd gan yr Israeliaid. O ganlyniad, nid ffug-chwedl yw'r hanes, a ddyfeisiwyd mewn rhyw oes ddiweddarach na Moses—yr oedd hyny yn anmhosibl—ond hanes a gafodd ei ysgrifenu a'i wneuthur yn gyhoeddus yn amser Moses, ac yn ngwydd personau a enwir eu bod yn llygad-dystion o'r gwyrthiau a adroddir ynddo—y rhai hefyd a dderbyniasant y gyfraith ac a ufyddhausant iddi ar sail y gweithrediadau goruwchnaturiol ag oeddent yn eu hargyhoeddi hwynt ei bod o Duw.

Ar y cyfan, wrth ystyired ansawdd y sefydliad Iuddewig, gwladol a chrefyddol, fe ymddengys na fuasai un deddf-roddwr byth i gynnyg y fath beth, nac ychwaith i'r genedl ei dderbyn ac ufyddhau iddo oddieithr ar y grediniaeth, ei fod o awdurdod dwyfol, ac y byddai gallu Duw i'w hymgeleddu, a'u hamddiffyn tra y parhaent yn eu hufydd-dod.

Ymhellach, or cymerwn i ystyriaeth ymddygiad Moses yn yr Aipht ac yn yr anialwch, ynghyd a character y dyn a'i amgylchiadau ar y pryd, yr y'm yn meddwl y gwelir ei bod yn anmhosibl i gyfrif am ei ymddygiad ef, fel arweinydd a deddf-roddwr i'r Israeliaid, oddieithr ar y dyb ei fod ef yn teimlo ac yn gwybod ei fod wedi ei anfon gan Dduw. Nis gallasai Moses ei dwyllo ei hun mewn peth o'r fath hyn. Ac y mae ei garacter ef, a'i ymarweddiad uniawn a diddichell, a'i olygiadau derchafedig am Dduw a'i lywodraeth, a'i zel dros rinwedd a geirwirdeb y fath, fel nas rhoddir lle i un tebygolrwydd y buasai iddo geisio twyllo eraill yn y peth hyn. A phe buasai i geisio hyny, ymddengys oddiwrth yr amgylchiadau, y buasai yn anmhosibl iddo gario y fath dwyll yn y blaen, yn ngwydd yr Aiphtiaid a'r Israeliaid, mewn pethau ag oeddent mor amlwg ac yn weledig i bawb.

Nid oedd un annogaeth gan Moses i'w dueddu i arfer y fath dwyll. Nid ydoedd nac yn ryfelwr nac yn areithydd; nis gallasai addaw iddo ei hun lwyddiant fel blaenor, na chlod mewn rhyfel. Ni welir un arwyddion o

uchel-gais bersonol yn ei ymarweddiad nac yn ei gyfraith ; nac un arwyddion o ymgais neu ddymuniad i fawrygu a chyfoethogi ei dylwyth a'i deulu ei hun ; ond y gwrthwyneb yn hollol. Ni cheisiodd, ac ni amcanodd drosglwyddo ei awdurdod i'w blant ar ei ôl ; ond gadawodd y rhai'n i fod yn mhlith y Lefiaid cyffredin. Gwelir prawf mwy tarawiadol etto o hunan-ymwadiad Moses.

Oddieithr ar y dyb ei fod ef, fel yr honnai ei fod, wedi derbyn ei gennadwri oddiwrth Dduw, nid oes un modd i gyfrif am ei ymddygiad, yn ngwyneb yr amgylchiadau yr oedd efe ynddynt, ac amgylchiadau yr Israeliaid, y rhai y daeth efe i'w gwaredu o gaethiwed yr Aipht ; eu cyflwr isel a gwan-galon, ar ôl eu hir orthrymder, ynghyd a gelyniaeth a gallu yr Aiphtiaid.

Cofier hefyd mai yr Aiphtiaid oedd y genedl fwyaf cyfrwys a nerthol mewn rhyfel y pryd hyny ar y ddaear ; ac mai nid pethau dieithr i Moses oedd y rhwystrau a'r peryglon ar y daith trwy'r anialwch, oddiwrth wrthnysigrwydd plant Israel ac oddiwrth ymosodiad gelynion ; ynghyda nerth a gwrolder trigolion Canaan, y rhai oedd Israel yn myned i'w gyrru allan ac i feddiannu eu gwlad—cenhedloedd o'r mwyaf nerthol a rhyfelgar y pryd hyny yn y byd yn nesaf at yr Aiphtiaid. Diau na fuasai Moses i gymeryd y gorchwyl mewn llaw o arwain Israel o'r Aipht i Ganaan, oni buasai ei fod yn credu ac yn gwybod fod yr Hollalluog o'i ochr, i'w gyfarwyddo ef a'r bobl oedd dan ei arweiniad.

Yr un modd gellir dangos fod ymddygiad pobl Israel, ar ôl eu gwaredigaeth o'r Aipht a'r mor-coch—yn eu gwersyllfa wrth odre mynydd Sinai, yn derbyn y gyfraith trwy law Moses—wrth groesi'r Iorddonen, ac wrth gymeryd meddiant o wlad Canaan—y fath ag nas gellir cyfrif am dano oddieithr ar y dyb eu bod wedi cael profion eglur ac argyhoeddiadol fod Duw wedi llefaru wrthynt trwy Moses, a bod ganddo ryw bethau mawr a daionus i'w cyflawni iddynt a thrwyddynt, fel cenedl a phobl briodol iddo ei hun.

Mae'n wir nad oedd y bobl yn deilwng o'r blaenor a roddodd Duw iddynt. Nid peth bychan oedd gallu eu cadw mewn trefn ac ufydd-dod dros gymaint o amser yn yr anialwch. Yr oeddent yn rhy barod i ymollwng o dan bob siomedigaeth ; ac yn ngwyneb gwrthwynebiadau neu absenoldeb eu Blaenor, darfu iddynt fwy nag unwaith ddangos chwennychiad i ddychwelyd yn eu hôl i'r Aipht. Braidd yr oedd y gwyrthiau yn ddigon i'w cadw gyda'u dyledswydd. Nid oedd Moses yntau, heb ei ffaileddau, ond y mae ei ymddygiad yn dangos rhinwedd a daioni ag sydd yn mhell uwchlaw'r cyffredin, ac yn sicr yn mhell uwchlaw dim a all anghredinwyr ddangos yn eu gwroniaid hwy. Fel engrhaifft o'i hunan-ymwadiad a'i gwbl ymroddiad i wasanaeth Duw a gwaredigaeth Israel, gadawer i ni nodi ei ymddygiad ef ar yr achlysur o wrthgiliad y bobl yn ei absenoldeb ef ar y mynydd. Exod. xxxii. 30, 32,—"A thranoeth y dywedodd Moses wrth y bobl, chwi a bechasoch bechod mawr, ac yn awr mi a âf i fynu at yr Arglwydd ; ond odid mi a wnaf gymmod dros eich pechod chwi. A Moses a ddychwelodd at yr Arglwydd, ac a ddywedodd, O'ch, pechodd y bobl hyn bechod mawr, ac a wnaethant iddynt dduwiau o aur. Ac yn awr os maddeui eu pechod ; *ac os amgen, delëa fi, attolwg, allan o'th lyfr a ysgrifenaist.*" Wedi arwain y bobl hyn am ddeugain mlynedd, bu Moses farw, pan yr oeddent ar gyffiniau, ac yn ngolwg gwlad yr addewid,

Pallai amser, ac ni chaniateid lle yn bresenol i ni ymhelaethu ar ansawdd a threfniadau y Grefydd Foesenaidd, nac i olrhain hanes y genedl yn yr oes-

oedd canlynol, er dangos i ba raddau y darfu iddynt gyflawni yr alwedigaeth i'r hon yr ordeiniwyd hwynt. Yr alwedigaeth honno ydoedd, iddynt fod yn wasanaethwyr y Gwir Dduw, ac yn dystion dros ei undod ef yn ngwyneb amryw-dduwiaeth y byd. Ac os y gweinyddodd, fel attalfa, drwy yr oesoedd, rhag y llifeiriant o eilunaddoliaeth ac annuwioldeb ag oedd yn ymdaenu dros y ddaear; yn nghyflawnder yr amser, coronwyd ei heffeithioldeb, trwy arwain i mewn oruwchwyliaeth o well. Yn "yr iachawdwriaeth gyffredinol" trwy Iesu Grist, fab Dafydd, fab Abraham, gwelwn gyflawniad gogoneddus o'r addewid a roddwyd gynt i Dad y ffyddloniaid, "*Mai yn ei hád ef, y bendithid holl dylwythau'r ddaear.* I.

Y PARCH. DAFYDD LLWYD, O FRYNLLEFRITH.

Mr. Ymofynydd,—Yr ydwyf yn barnu fod y rhan amlaf o'ch darllenwyr wedi clywed llawer o son gan eu teidiau am y Parchedig Dafydd Llwyd, o Frynllefrith, neu Mr. Llwyd, Llwynrhydowen; ac y carent weled y dernyn canlynol o bregeth y Parchedig Dafydd Jones, o'r Prescot, yr hon a bregethodd yn Llwynrhydowen, ar achos marwolaeth Mr. Llwyd. Bu farw yn lled ddisymmwth er ys tua 75 mlynedd yn ol, yr wyf yn bwrw.

"Pe buasai i Ragluniaeth ganiatau odfa i'ch gweinidog diweddar chwi i gymmeryd ei gennad mewn modd cyhoeddus, nid wyf fi yn adnabod *neb* a allasai gyda chymmaint o gymmwystra i ymadael a'i gynnulleidfa yng ngeiriau y testyn—Act. xx. 32, 33, 'Ac yr awr hon, frodyr, yr ydwyf yn eich gorchymmyn i Dduw, ac i air ei ras ef, yr hwn a all adeiladu ychwaneg, a rhoddi i chwi etifeddiaeth ym mhlith yr holl rai a sancteiddiwyd. Arian, neu aur, neu wisg neb, ni chwenychais.' Fe allasai ddywedyd—Mi a esgeulusais fy nheulu fy hun i'ch gwasanaethu chwi ac i gynnorthwyo y llawd. Mi a ddangosais i chwi yr holl bethau buddiol trwy fy athrawiaeth a'm esiampl; yn enwedig mi a'ch gosodais mewn côf am eiriau yr Arglwydd Iesu—mai dedwydd yw rhoddi yn hytrach na derbyn."

Os y mynnwch, Mr. Ymofynydd, cewch y bregeth yn llawn i'w hargraphu.

Gadewch i mi ddywedyd wrth eich darllenwyr ifeinge mai tadcu Dr. Llwyd, A.M., yn bresennol o Gaerfyrddin, ydoedd Mr. Llwyd; ac mai mab y Fadfa, ac ewythr i mi brawd fy mamgu, mam fy nhad ydoedd Dafydd Jones, o'r Prescot. Ydwyf, &c,

J. Jones, Aberdâr.

O.Y Gobeithiwn, Mr. Ymofynydd, y bydd i Dr. Llwyd ysgrifennu hanes bywyd ei dadcu a'i gyhoeddi ar fyrr.

Geneva.—"Y mae Eglwys Geneva yn beth o bwys i bob *Protestant*, fel ag y mae wedi bod yn fammaeth i flaenoriaid y diwygiad; eithr ymddengys fod canlynwyr Calfin a Turretin wedi ymadael ym mhell oddiwrth athrawiaethau iachus eu cynneifiaid, y maent yn agos wedi rhestru eu hunain dan faner Sociniaeth. Y mae y peth yn fwy gofidus gan fod amrywiol o ieuenctyd o wahanol wledydd Ewrop, yn neillduol o Eglwysi Ffrainge, yn cael eu danfon yno er cael addysg duwiniaethol yn y brif ysgol, lle mae'r llywyddiaeth yn nwylaw y *venerable compagnie des pasteurs* o Eglwys Geneva."—*Bell's Geography*. p. 620.

IOLO MORGANWG.

DARNAU ERAILL O'I WAITH.

Nis gwyddom pa beth i'w ddywedyd i'n darllenwyr yn ngwyneb y siomedigaeth a fuom yn foddion i'w achosi, parth ymddangosiad "Cofiant Iolo Morganwg" cyn hyn yn yr *Ymofynydd*. Yr oeddem yn ymddibynu ar addewid gohebydd parchus a galluog; yr hwn, mae'n debyg, sydd wedi cael ei rwystro hyd yn hyn gan amgylchiadau annisgwyliadwy. Ond dywed ein cyfaill wrthym, nad ydyw ar fedr cilio oddiwrth ei addewid. Gobeithiwn y gwelir cyflawniad o hono ar fyr iawn. Yn y cyfamser y mae yn dda genym allu gosod ger bron ein darllenwyr ddarnau o waith yr hen Fardd clodwiw, y rhai ni chafodd y rhan amlaf o honynt y cyfleusdra o'r blaen o'u gweled yn argraffedig.

I.

Emyn y Bore, i'w chanu fal y dihuner.

Aeth heibio'r nos, a goleu'r dydd
A ddaeth o newydd inni:
Boed cân fy mawl yn aberth râd,
I nefol Dad goleuni.

Gwel, f' enaid, gwel, yr hyfryd ddawn,
Yn ddisglaer ddawn am danad,
Goleuni'r dydd, o dyro fawl,
Am hynn i'r nefawl gariad.

Er machlud haul, aeth llawer mil
I'r farn o'r hil ddaearol;
Byw mewn dydd arall 'rwyf fi 'nawr,
Clod itti'r Mawr Anfeidrol.

Drwy gylch y dydd sy ger fy mronn,
O tynn fy nghalon attat,
I rodio'n hardd, heb lithro'n ol,
Dan haul dy nefol gariad.

Boed oll a wnelwyf er dy glod,
Câf felly fod yn ddedwydd,
Gan deimlo'n fywydoldeb îr
Glwysderau'r gwir tragywydd.

II.

Arall.

Un dydd ym mhellach immi fyw,
Trugaredd Duw'n ei roddi,
O boed y gân yn foliant îr,
I Dad y gwir oleuni.

Mae'r dydd i'r dydd, a'r nos i'r nos,
Yn dangos mawr ddaioni
Yr unig mawr, yr unig mâd,
Goruchel Dad goleuni.

Duw boed fy nghalon itti'n awr,
Yn canu'n fawr ei hynni,
Am etto'n râd fy marnu'n wiw,
I ganfod lliw goleuni.

Gwir olau'r nef, O dirion Dad!
Yw gair dy gariad inni,
Holl daith fy mywyd boed yn iawn,
Yn ffyrdd ei lawn oleuni.

III.

Emyn i Dduw'r Goleuni.

Tad bywyd a goleuni, dysg immi'r nefol
Gun;
Pa beth yw'r gwir ddaioni, pa beth wyt
di dy hun;
Rhag twyll, pob chwant daearol, pob
gwagedd a phob gwŷd,
O gwared fi'n wastadol, drwy'm taith yn
hyn o fyd.

Dysg immi wir ufudd-dod, pob cariad
a phob hedd,
Fal bytho glân gydwybod, byth immi'n
hyfryd wledd;
A wedd o flaen dy wyneb, cyfiawnder
dod i' mi,
Gorfoledd y doethineb, sy'n ol dy
'wyllys di.

IV.

Mawl boreol i Dduw.

Mae' i unwaith etto'n dorriad gwawr,
Dychwelodd awr goleuni;
Moliannaf y trugarog Dad,
Am hynn o'i rad ddaioni.

Dydd etto'n fyw'n y fuchedd honn;
O rhoed fy nghalon foliant;
Dadseimied iddo'r gân yn bêr,
Goruchel Nêr gogoniant.

Er dechreu nos aeth miloedd maith,
I benn y daith ddaearol,
A ninnau'n fyw a'm cân yn awr,
I'r ceidwad mawr anfeidrol.

Tad bywydoldeb, Duw fy nghred,
O bydded yn feunyddiol,
Modiadau 'nghorph a'm enaid i,
Oll yn d' oleuni nefol.

DUWDOD CRIST.—Llythyr XII.

EI DRAGWYDDOLDEB, &c.

Yr adnod nesaf a ddygir ymlaen dros dragywyddoldeb a hunan-hanfodiad ein Harglwydd Iesu Grist, yw Col. i. 17,—"Ac y mae ef cyn pob peth, ac ynddo ef y mae pob peth yn cydsefyll."

Yr argument Drindodaidd.—"Y mae hyn ar unwaith yn gosod allan ei dragywyddoldeb a'i hunan-hanfodiad."—*Carlile.*

Nis gall y geiriau uchod, ar y goreu, ddim profi rhagor na rhaghanfod Crist; gallasai fod cyn pob peth crëedig, ac etto fod ym mhell o fod yn dragywyddol, os llawer dros bedair mil o flynyddoedd. Ond nid wyf yn meddwl fod hyd yn oed ei raghanfod i'w ddeall oddiwrth eiriau'r Apostol. Sôn y mae ef am y greadigaeth newydd, am ddynion yn cael eu creu o'r newydd, yn awyddus i weithredoedd da; ac o ganlyniad y cyntaf o hon, y greadigaeth newydd, mewn amser ac urddas, oedd ein Harglwydd Iesu Grist—y cyntaf-anedig oddiwrth y meirw. Yn y 18fed adnod, dywed yr Apostol—"Ac efe yw *Pen corph yr Eglwys.*" Felly yr Eglwys, ac nid pridd, coed, a cherrig sydd ganddo ef mewn golwg. Y mae'n myned rhag ei flaen yn yr 20fed adnod, gan ddywedyd—"Ac (wedi iddo wneuthur heddwch trwy waed ei groes ef) trwyddo ef gymmodi *pob peth* ag ef ei hun, —trwyddo ef, meddaf, pa un bynnag ai pethau ar y *ddaear*, ai pethau yn y *nefoedd.*" Pa angen oedd cymmodi bodau nefol a Christ? A oedd rhyw rai yno yn grocs i'r Iesu, mewn anghyttundeb ag ef? Nid oes neb yn meddwl y fath beth. Ac nid meddwl chwaith y mae yr Apostol, fod y sêr a'r planedau yn cael eu cymmodi a'r Iesu; ond sôn y mae am Iuddewon a chenhedloedd yn cael eu gwneuthur yn un, a thrwy yr un Ysbryd yn llefain Abba Dad! Felly amlwg yw pa greadigaeth oedd ganddo mewn golwg. Yr oedd Iuddewon a Chenhedloedd yn ddwy blaid, ar wahan, y naill oddiwrth y llall, hyd ddyfodiad Iesu; yna y mae pob gwahaniaeth yn darfod: y mae'r athrawiaeth sydd yn cyhoeddi Duw'r cariad yn Dad cyffredinol holl ddynolryw, tosturiol a maddeugar, yn tynnu canol-fur y gwahaniaeth i lawr, yn creu calon newydd ac ysbryd newydd yn yr Iuddew a'r Groegwr; nid yw'r Cenhedloedd mwyach yn ddieithriaid a dyfodiaid; nid estroniaid mwy, ond plant; ac os plant, yna etifeddion hefyd. Rhyw greadigaeth ryfedd yw hon sydd yn creu meddyliau a dibenion newyddion, a gweithredoedd newyddion yn canlyn. Y cyntaf yn y greadigaeth ogoneddus hon yw yr Iesu—y cyntaf, y blaenaf, ymhlith brodyr lawer yw ef. Y mae'r Apostol hefyd, hyd yn oed yn y bennod hon yn galw Duw, yn Dduw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, yr hyn fuasai yn hollol anghymmwys pe buasai yn bwriadu dysgu ei dragywyddoleb ef, ac o ganlyniad ei dduwdod ef yn yr un bennod. Adn. 3—,"Yr ydym yn diolch i Dduw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, gan weddio drosoch chwi yn wastadol."

Dywedir hefyd fod Ioan Fedyddiwr yn gosod allan yr un dyb yn yr hyn a ddywed yn Ioan i. 15,—"Yr hwn sydd yn dyfod ar fy ol i a aeth o'm blaen i; canys *yr oedd efe o'm blaen i.*" Pe gellid profi fod Crist o flaen Ioan Fedyddiwr mewn amser, nis gallaf ganfod, er dim a wnelwyf, pa fodd y prawf hynny ei dragywyddoldeb! Ond y mae yr un ymadrodd yn cael ei adrodd etto gan y Bedyddiwr yn y bennod hon, a hynny mewn cyssylltiad na ddioddef y casgliad a gefnoga ei dragwyddoldeb. Yn y 30ain adn. y mae'n dywedyd—"Hwn yw efe am yr hwn y dywedais, Ar

fy ol i y mae *gwr* yn dyfod, yr hwn a aeth o'm blaen i, canys yr oedd efe o'm blaen i." Sylwer,—"Ar fy ol i y mae GWR yn dyfod." Yn y Saesneg, —"*After me cometh a man.*" Groeg,—"*Opisô mou erchetai* ANER." Syriac—"*Devothari othe* GABRO." Felly, cannad ymha ystyr yr oedd Iesu Grist o flaen Ioan Fedyddiwr, sicr yw mai fel dyn yr oedd ef felly; oblegid dyn—*man* sydd yn y Saesneg; dyn—*aner* yn y Groeg gwreiddiol; dyn—*gabro* yn y Syriac, y cyfieithad henaf o'r Testament Newydd; a *gwr* yn y Gymraeg. Gweler pa mor wan yw y prawf hwn etto.

Rosenmuller.—"Ac y mae efe cyn pob peth arall mewn amser, fel awdwr y sefyllfa newydd (yr hyn sydd yn ymddangos yn fwy dewisol, o herwydd yr hyn sydd yn canlyn), mewn anrhydedd, oblegid y mae ef yn Arglwydd pawb."

Principal Hill.—"Y mae'r amgylchiadau hyn (sef fod *autos* efe, yn fwy priodol i ddwyn i mewn osodiad newydd nag ail-adrodd yr un o'r blaen, ac fod amseriad, *tense* eimi wyf, yn dangos nid beth oedd yr Iesu cyn ei gread-igaeth, ond yr hyn ydyw yn awr) yn gwneuthur y rhan gyntaf o'r 17fed adn. yn ymadrodd o oruwchafiaeth."

Bellach at Heb. vii. 1—3,—"Canys y Melchizedec hwn, brenhin Salem, &c., * * * heb dad, heb fam, heb *achau*, heb fod iddo na dechreu dyddiau na diwedd einioes; eithr wedi ei wneuthur yn gyffelyb i Fab Duw, sydd yn aros yn offeiriad yn dragywydd."

Yr Argument Drindodaidd.—"Yr oedd Melchizedec yn gyffelyb i'r Iesu, yr hwn, fel yr oedd yn Dduw, oedd heb dad na mam, na dechreu dyddiau na diwedd einioes, ac yr oedd ganddo offeiriadiaeth dragywyddol."—*Dr. Adam Clarke.*

Yn ol y dull hwn o ymresymu gellir profi tragwyddoldeb a duwdod Melchizedec yn gystal a duwdod yr hwn y mae ef yn gyffelyb iddo. Ond nid yw duwdod y naill na'r llall yn cael ei osod allan yma. Bod heb dad na mam, heb achau, oedd bod heb fod o lwyth yr offeiriaid. Nid oedd enw Melchizedec na'i achau yng nghof-lyfrau'r offeiriaid; a bod heb ddechreu dyddiau na diwedd einioes, oedd bod heb goffadwriaeth pa bryd y dechreu-odd nac y gorphenodd ei offeiriadaeth. Felly yn gymmwys ein Harglwydd Iesu Grist—nid oedd ganddo yntau na thad na mam o lwyth Levi, eithr o lwyth Judah, (adn. 14.) "Canys hyspys yw mai o Judah y cododd ein Harglwydd ni, am yr hwn lwyth ni ddywedodd Moses *ddim* tuag at yr *offeiriadaeth.*" Felly yn ol urdd Aaron, nis gallasai yr Iesu fod yn offeiriad; ond yn ol urdd Melchizedec yr oedd yn offeiriaid, yr hwn oedd yntau heb dad na mam o lwyth yr offeiriaid, ac etto yn offeiriad.

Gellir sylwi ym mhellach etto ei bod yn arferiad gynt, fel y mae etto, i alw dynion o deulu tlawd fel heb eu geni, fel pe na byddent yn bod. "*He is a man of birth;*" neu, "*He is a man of no birth and connexions;*" medd y Sais; nid o ran fod un *wedi ei eni*, a'r llall *heb ei eni;* ond o herwydd fod cyfrif yn cael ei wneuthur o un, a dim o'r llall. Y mae'n amlwg mai mewn rhyw ystyr gyffelyb y mae deall y geiriau am yr Iesu, oblegid gwyddom fod *mam* gan yr Iesu o leiaf: nid oes a wâd hyn. Ac os credir ei fam ei hun, yr oedd ganddo dad hefyd; a phwy allasai wybod yn well na hi; (Luc ii. 48.) "Wele dy dad a minnau yn ofidus a'th geisiasom di." Yn wir y mae Matthew a Luc yn rhoddi hanes *genedigaeth ac achau yr Iesu*; felly nis gellir deall y geiriau yn llythrenol am dano ef. Gosodir allan hefyd yn y llythyr dan sylw, na ddarfu i'r Iesu ogoneddu ei *hun* i fod yn archoffeiriad

ond yr *hwn* a ddywedodd wrtho—'Fy mab ydwyt ti, myfi heddyw a'th genhedlaist'—iddo, yn nyddiau ei gnawd, trwy lefain cryf a dagrau, offrwm *gweddiau ac offrymau* at yr hwn oedd abl i'w achub ef oddiwrth farwolaeth—iddo gael ei *wrando* yn yr hyn a ofnodd—iddo, er yn Fab, ddysgu ufuddodd trwy y pethau a ddioddefodd—iddo gael ei *berffeithio* a'i *wneuthur* yn awdwr iechydwriaeth dragywyddol—iddo gael ei *gyfenwi* gan Dduw yn archoffeiriad yn ol urdd Melchizedec." Amhosibl fod y pethau hyn yn wir am dano os oedd yn Dduw, ac y maent yn cael eu llefaru am dano fel offeiriad yn ol urdd Melchizedec. Nis gallasai yr Iesu fod yn offeiriad yn llythrenol yn ol y gyfraith Iuddewig; (Heb. vii. 13,) "Oblegid am yr hwn y dywedir y pethau hyn, efe a berthyn i lwyth arall, o'r hwn nid oedd NEB yn gwasanaethu'r allor;" ond yn ffigwraidd, yr oedd yr Iesu yn offeiriad, fel y mae yr Israeliaid fel pobl yn cael eu galw yn frenhiniaeth o offeiriaid; (Exod. xix. 6.) "A chwi a fyddwch i mi yn frenhiniaeth o offeiriaid, ac yn genhedlaeth sanctaidd." Felly hefyd y mae Petr yn galw'r credinwyr yn frenhinol offeiriadaeth; (1 Petr ii. 9,) "Eithr chwychwi ydych rywogaeth etholedig, brenhinol offeiriadaeth, cenhedl sanctaidd, pobl briodol i Dduw." Gelwir hwynt yn frenhinoedd ac offeiriaid yn Dat. i. 6; v. 10; xx. 6;—"Ac a'n gwnaeth ni yn frenhinoedd ac yn offeiriaid i Dduw a'i Dad ef."

Cameron.—"Y mae hyn i'w ddeall am Grist nid mewn perthynas â'i berson, ond ei offeiriadaeth; oblegid yr oedd ganddo ef dad a mam—tad mewn perthynas i'w natur ddwyfol—a mam mewn perthynas i'w natur ddynol. Y mae ei enedigaeth yn cael ei desgrifio gan Luc a Matthew. Yr oedd iddo ddechreu dyddiau pan y cenhedlwyd ef gan yr Yspryd Glân, a diwedd einioes pan y bu farw ar y groes."

Dr. John Owen.—"Ond nid am berson Crist yn hollol, nac ychwaith am ei ddwy natur yn eglur, y mae yr Apostol yn llefaru, ond yn unig gyda golwg ar ei swydd offeiriadol."

Proffessor Stuart.—"Gorfodai y dyb fwyaf cyffredin; sef, mai Melchizedec oedd Iesu Grist, ni i dderbyn y dehongliad hwn—sef, 'fod Crist yn debyg iddo ei hun;' neu fod cydmariaeth yn cael ei thynnu gan ein hawdwr (Paul) rhwng Crist â'i hunan—*Cujus mentio est refutatio.*"

1 Ioan i. 1, 2,—"Yr hyn oedd o'r dechreuad, yr hyn a *glywsom*, yr hyn a *welsom* â'n llygaid, yr hyn a *edrychasom* arno, ac a *deimlodd* ein dwylaw am air y bywyd; canys y bywyd a eglurhawyd, ac ni a *welsom* ac ydym yn tystiolaethu, ac yn mynegi i chwi y bywyd tragywyddol.

Y mae darllen yr adnodau uchod yn bwyllog, yn ddigon i ddangos nad oes na thragywyddoldeb na duwdod yn cael ei ddysgu ynddynt; gan hynny, rhoddaf feddyliau dau neu dri o Drindodiaid heb ychwanegu gair fy hunan.

Hammond.—Yr hyn oedd o'r dechreuad y byd ym mwriad ac amcan Duw, ac wedi hynny a gafodd ei ragfynegi ganddo ef, ac a eglurwyd gennym ni Apostolion Crist, trwy Dduw yn llefaru o'r nef, ac a welwyd ac a edrychwyd arno mewn gwirionedd gennym ni; a adnabuwyd ac a dystiolaethwyd gan ein holl synwyrau."

Schoettgen.—"Wrth *ap arches* yr wyf yn deall dechreuad gweinidogaeth Crist fel y dangosir gan yr hyn sy'n canlyn, a'r testynau cyfattebol; Ioan xvi. 4; 1 Ioan ii. 7,—A'r pethau hyn ni ddywedais i chwi o'r dechreuad am fy mod gyda chwi," &c.

Lled debyg yw barn Le Clerc, Whitby, Michaelis, Schleusner, Rosenmuller, Bloomfield, &c., &c.

Yn awr ni a awn at yr hyn a osodir i lawr fel prawf arall o dduwdod Crist, sef, ei—

NATUR ANAMGYFFREDADWY.

Mat. xi. 27,—"Pob peth a *roddwyd* i mi gan fy Nhad: ac nid *edwyn* neb y Mab ond y Tad; ac nid *edwyn* neb y *Tad* ond y *Mab*, a'r *hwn* yr ewyllysio'r Mab ei *ddatguddio iddo*."

Yr Argument Drindodaidd.—"Y mae'r geiriau hyn (nid edwyn neb y Mab ond y Tad) yn dangos yn eglur fod rhyw beth yn ddirgelaidd aneglur-adwy yn natur a pherson Crist, yr hyn yn wir sydd yn ymddangos yn y modd mwyaf argyhoeddiadol, oddiwrth yr hanes a gawn mewn mannau eraill o'r Ysgrythyr am ei dduwdod."—*Doddridge.*

Yn wir y mae hanfod pob peth, llysiau, anifaeliaid, adar, pysgod, dynion, yn anamgyffredadwy, ond nid ydynt o herwydd hynny yn dduwiau Ond yn y testun uchod y mae yn amlwg mai nid hanfod a nattur Duw a Christ sydd i ddeall, oblegid y mae'r Duw anamgyffredadwy a sonir am dano, i gael ei egluro i ddisgyblion Crist. Ac nid edwyn neb y Tad ond y Mab, a'r HWN yr ewyllysio'r Mab ei *ddatguddio* iddo. A ddarfu i'r Mab ddatguddio hyn i ryw rai erioed? Do, do; (Ioan xvii. 2, 3,) "Fel am y cwbl a roddaist iddo y *rhoddai* efe iddynt *fywyd tragywyddol*; a hyn yw'r *bywyd tragywyddol* iddynt dy ADNABOD di yr unig wir Dduw, a'r HWN a anfonaist ti Iesu Grist." A gafodd rhyw rai fywyd tragywyddol? Do, do; llaweroedd gobeithiwn. Wel, hwy gawsant adnabyddiaeth o'r *Tad* a'r MAB. Beth ddarfu iddynt adnabod? Ai hanfod y Tad a'r Mab? Nage; nis gellir adnabod hanfod dim; ond bwriadau ac amcanion y Tad a'r Mab er achubiaeth dyn; dyma gafodd ei ddatguddio gan Grist, a thyma'r hyn a gafodd ei adnabod gan ei ddisgyblion. A oes neb yn adnabod Duw a Christ? Oes, gobeithio; onide nid oes iddynt fywyd tragywyddol. Ond beth yw llais yr Ysgrythyrau ymhellach ar hyn? Ioan xvii. 6,—"Mi a eglurais dy enw i'r rhai a roddaist i mi allan o'r byd." 2 Petr i. 2, 3,—"Gras i chwi a thangnefedd a amlhaer, trwy adnabod Duw a'n Harglwydd Iesu Grist. Megis y rhoddes ei dduwiol allu ef i ni bob peth a berthyn i fywyd tragywyddol, trwy ei *adnabod* ef yr hwn a'n galwodd ni i ogoniant a rhinwedd." 1 Ioan ii. 13, 14,—"Ysgrifenu yr wyf attoch chwi rai bychain am i chwi *adnabod* y Tad. Ysgrifenais attoch chwi dadau am *adnabod* o honoch yr hwn sydd o'r dechreuad." 1 Ioan iv. 7,—"A phob un ar sydd yn caru, o Dduw y ganwyd ef, ac y mae efe yn *adnabod* Duw; yr hwn nid yw yn caru, nid adnabu Dduw, oblegid Duw *cariad yw*." Dywedir fod yr Ysprydd Glân, y trydydd person, yn Dduw ac o ganlyniad yn anamgyffredadwy yn ei nattur; ond, er nad oedd y byd yn ei adnabod yr oedd disgyblion Crist yn adnabod hwn hefyd. Ioan xiv. 16, 17,—"A mi a weddiaf ar y Tad, ac efe a rydd i chwi ddiddanydd arall * * * Yr hwn ni ddichon y byd ei dderbyn am nad yw yn ei *weled* nac yn ei *adnabod*; ond chwi a'i hadwaenoch ef." Felly nid oes dim gair o sôn yn yr adnod dan sylw am nattur Crist na Duw, oblegid beth bynnag a sonir am dano yn yr adnod yn anadnabyddus y pryd hynny, oedd i gael ei ddatguddio i'r rhai a ewyllysiai Crist. Ar y cyntaf nid oedd neb yn adnabod bwriadau ac ewyllys Duw ond y Mab yn unig; ond wedi i'r Mab eu datguddio, a ydyw yn dywedyd felly mwy? Nac ydyw; ond dyma ei iaith ef wedi'n; (Ioan xvii. 25,) "Y Tad sancteiddiol nid adnabu y *byd* dydi." Beth am y lleill? Maent yn y goleuni. Ioan

viii. 12,—"Goleuni y byd ydwyf fi, yr hwn a'm dilyno i, ni rodia yn y tywyllwch, eithr efe a gaiff oleuni y bywyd. Y neb a'm gwelodd i a welodd y Tad. Y geiriau yr wyf fi yn eu llefaru wrthych, nid eiddof fi ydynt. Fy ngeiriau i Ysbryd ydynt a bywyd ydynt."

Hammond.—"Nid oes neb yn fy nghydnabod i, ond y Tad a'r rhai hynny sydd yn cael eu tynnu attaf fi gan y gwyrthiau, y rhai y mae fy Nhad yn fy ngalluogi i i'w gwneuthur."

Grotius.—"Y Tad yn unig, yr hwn a ordeiniodd hynny er tragywyddoldeb, a wyddai beth oedd y Mab i wneuthur a dioddef, a pha ogoniant oedd ynghadw iddo."

Rosenmuller.—"Nid oes neb etto wedi adnabod natur y swydd a ymddiriedwyd i'r Messiah ond y Tad.—Mae *hwios*, y Mab yn cael ei osod yn fyrr am yr hyn a ymddiriedwyd gan y Tad i'r Mab i wneuthur a dysgu."

Sherlock.—"Y mae Duw yn awr wedi ymddiried i Grist ei holl fwriadau dirgel ynghylch iechydwriaeth dynolryw, y rhai oeddent yn guddiedig er ys oesoedd. Nid oedd neb o'r phrophwydi nu o'r blaen yn deall hyn mor gyflawn; ac nid oes gennym ninnau un ffordd sicr i adnabod hyn, ond trwy'r dadguddiad a roddodd Crist i ni."

Felly dyna ddigon ar y nattur anamgyffredadwy etto. Ymlaen ynte at

ANGHYFNEWIDIOLDEB CRIST.

Heb. i. 10—12. "Ac, tydi yn y dechreuad, Arglwydd, a sylfaenaist y ddaear, a gwaith dy ddwylaw di yw y nefoedd; hwynthwy a ddarfyddant, ond tydi sydd yn parhâu; hwynthwy fel dilledyn a heneiddiant, ac megis gwisg y plygi di hwynt, a hwy a newidir, ond tydi yr *un* ydwyt, a'th flynyddoedd ni phallant."

Nid wyf yn tybied y gallaf wneuthur yn well na rhoddi ymresymiad goleu-dyb Mr. Emlyn ar y geiriau hyn, o faen darllenwyr yr *Ymofynydd*. Gwel *Emlyn's Works, vol.* ii. *pp.* 339—341. "Nid yw pob cymhwysiad o destun i unrhyw berson ddim yn ddigonol brawf mai yr un person ydyw ag y llefarwyd ef am dano ar y cyntaf. Er enghraifft, y mae St. Mathew pen. ii. 15, yn dywedyd fod yr hyn a ddywedwyd gan yr Arglwydd trwy'r prophwyd, gan ddywedyd, O'r Aipht y galwais fy Mab, wedi ei gyflawni yn yr Iesu. Nawr, ble y cair y geiriau hyn ond yn Hosea xi. 1, lle yn amlwg y llefarwyd hwynt am Israel, "*Pan* oedd Israel *yn fachgen, mi a'i cerais ef, ac a elwais fy mab o'r Aipht.*" A oedd pobl Israel a Iesu Grist gan hynny yn un, serch, oherwydd tebygolrwydd y peth, fod yr hyn a ddywedir am un yn cael ei gyflëu at y llall? Nac oeddent yn sicr.

"Nid yw yn ymddangos i mi fod Awdwr y llythyr yn sicrhau i ni, fod y geiriau yn cael eu llefaru am y *Mab:* oblegid sylwer pa fodd y mae yn eu dwyn hwynt i mewn, adn. 8, 9, 10. 'Ond wrth y Mab, dy orseddfainge di, O Ddaw, sydd yn oes oesoedd—Ti a geraist gyfiawnder, ac a gaseaist anwiredd: am hynny y'th enneiniodd Duw, sef dy Dduw di, ag olew gorfoledd tu hwnt i'th gyfeillion. Ac, tydi yn y dechreuad, Arglwydd, a sylfaenaist y ddaear: a gwaith dy ddwylaw di yw y nefoedd &c.' Yma gallwn sylwi mai yw y ddegfed adnod, 'Ac, tydi Arglwydd, &c.' (er ei bod yn ddifyniad neu (ld) ddim yn cael ei dechreu gyda'r geiriau, *Ac, wrth y Mab y mae'n dywedyd*, megis yn yr 8fed adnod, neu gyda'r geiriau '*A thrachefu*,' fel y gwnair yn y 5ed ar 6fed adnodau, a'r ail bennod a'r 13eg adnod, ond yn unig gyda'r geiriau, '*Ac tydi Arglwydd.*' Yn awr Duw Crist oedd y diweddaf

a grybwyllwyd, yr hwn a'i henneiniodd ef; ac ar hynny y mae'r *Awdwr* gan annerch y Duw hwn, yn torri allan i glodfori ei *allu*, ac yn enwedig ei *barhâd anghyfnewidiol*; ar yr hyn y mae yn aros, fel y peth pennaf y mae yn difynu'r testun o'i herwydd; i'r diben, yr wyf yn tybied, o brofi sefydlogrwydd teyrnas y Mab, a grybwyllwyd o'r blaen: '*dy orseddfainge di, O Dduw sydd yn oes oesoedd; Duw, dy Dduw di a'th enneiniodd di, ac tydi Arglwydd*, hynny yw, tydi, yr hwn a addewaist iddo y fath orseddfainge, *yw efe yr hwn a sylfaenodd y ddaear*, a'th *ddwylaw di* a wnaeth y nefoedd, y rhai er mor faith a sefydlog eu parhâd, er hynny ryw ddydd a ddarfyddant, *ond tydi sydd yn parhâu; tydi yr un ydwyt, a'th flynyddoedd ni phallant*.' Felly ymddengys mai datganiad ydyw o anghyfnewidioldeb Duw, yn cael ei wneuthur yma i ddangos parhâd teyrnas Crist a grybwyllwyd o'r blaen; ac yn hyttrach felly oherwydd fod y testun yma wedi cael ei arfer yn gyntaf i'r un pwrpas yn yr 102 Salm. sef, i dynnu oddiwrtho y casgliad hwn, adn. 28. '*Plant dy weision a barhânt, a'u hâd o sierheir ger dy fron di*.' Yn yr un modd mae yn profi yma y byddai teyrnas y Mab i gael ei sierhau yn oes oesoedd trwy yr un fath ymresymiad, sef, trwy anghyfnewidioldeb Duw; ac felly cyfeirid at Dduw yn berthnasol iawn, heb un cyfeiriad at y *Mab*, i ddangos pa mor alluog oedd *ei Dduw ef*, yr hwn a'i heneiniodd ef, i sierhau a dal i fynu yr hyn oedd wedi roddi iddo, sef teyrnas a barhâi yn dragywydd. Mai dyma fel y deallid y geiriau hyn gan y tadau a ymddengys oddiwrth hyn, eu bod yn esbonio *dy ddwylaw* am y Mab a'r Ysbryd, yr hyn nis gallasent wneuthur os oeddent yn deall yr ymadrodd wedi ei lefaru am Grist, Gwel *Irenæus lib.* 4. *c.* 6., *lib.* 5. *c.* 3. *Tertullian advers. Hermog, c.* 45. Nid oes un ysgrifenydd hen erioed wedi cymhwyso'r geiriau hyn at Grist, dros y tri chant cyntaf; ac nid yw Dr. Waterland yn *pretendio* iddynt gael eu cymhwyso hyd y bedwarydd a'r bymmed canrif. Gwel ei Bregethau p. 65."

Grotius.—"Etto y mae'r ysgrifenydd yn cymhwyso at y Messia yr hyn a lefarwyd am Dduw, oblegid ei bod yn bur adnabyddus ymhlith yr Hebreaid, fod y byd hwn wedi ei wneuthur er mwyn y Messia, ac y byddai i'r byd newydd a gwell gael ei wneuthur ganddo ef. Felly yr wyf yn dehongli: 'Ti oedd yr achos y sylfaenwyd y ddaear, ac er dy fwyn di y gwnaed y nefoedd."

Rosenmuller.—"Dyfyniad yw'r geiriau o'r cii. Ps. 25—37 * * Nad yw'r Salm hon ddim yn traethu dim am y Messiah, a ellir ganfod yn rhwydd gan bob un. Ac nid yw Paul yn haeru ei bod."

Yr adnod nesaf yw Heb. xiii. 8. "Iesu Grist, ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd."

Yr Argument Drindodaidd.—"Mae'r geiriau hyn mor bendant, o blaid anghyfnewidioldeb Crist, fel mai da y gallwn ryfeddu wrth yr hyfder a allasai gynnig tynnu un ystyr arall oddiwrthynt heblaw yr un y maent yn gynnwys yn amlwg. Nid oes dim, modd bynnag, yn rhy frawychus i feirniaid undoddaidd i'w dryllio."—*Carlile.*

Mewn atteb yr wyf yn sylwi yn gyntaf fod y geiriau, *Crist*, a *Iesu Grist* yn cael eu harfer yn aml gan yr Apostolion am athrawiaeth a goruchwiliaeth Crist. Act. v. 42.—"A beunydd yn y deml ac o dŷ i dŷ, ni pheidiasant a *dysgu* a phregethu Iesu Grist." Gal. iv. 19.—"Fy mhlant bychain, y rhai yr wyf yn eu hesgor drachefn, hyd oni *ffurfier* Crist ynoch." Act. viii. 5,—"Yna Philip a aeth i waered i ddinas Samaria, ac a bregethodd Grist iddynt;" adn. 35, "Yn pregethu'r Iesu." Rhuf. 8. 10,—"Ac os yw Crist *ynoch*, y

mae'r corph yn farw o herwydd pechod." 2 Cor. iv. 5.—"Canys nid ydym yn pregethu ein hunain, ond Crist Iesu yr Arglwydd;" v. 16.—"Od oes neb yng Nghrist y mae efe yn greadur newydd." Yn yr holl fannau uchod, athrawiaeth neu ddysgeidiaeth Crist, tuhwnt i bob amheuaeth sydd i ddeall. Y mae yn amlwg iawn i mi mai athrawiaeth Crist oedd gan yr awdwr mewn golwg yn yr adnod dan sylw. Yn yr un bennod y mae'n dywedyd, (adn. 7—9,) "Meddyliwch am eich blaenoriaid, y rhai a draethasant i chwi *air* Duw: ffydd y rhai dilynwch, gan ystyried diwedd eu hymarweddiad hwynt. Iesu Grist, ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd. Na'ch arweinier oddiamgylch gan *athrawiaethau* amryw a dieithr." Y rheswm pa'm, y mae'r awdwr yn roddi dros beidio cael ein harwain gan athrawiaethau dieithr, yw, mai yr un yw Iesu Grist, nad yw ei ddysgeidiaeth ef ddim yn amryw, ond ei bod yr un nawr ac yn dragywydd. Y mae Paul hefyd yn gosod allan yr un gwirionedd, sef, fod dysgeidiaeth Crist yr un. 1 Cor. i. 18, 19, 20,—"Eithr ffyddlawn yw Duw, a'n *hymadrodd* ni wrthych chwi, ni bu ïe a nage, canys *Mab Duw*, Iesu Grist, yr hwn a *bregethwyd* yn eich plith gennym ni, sef, genyf fi a Silfanus a Thimotheus, *nid oedd ïe a nage*, eithr ynddo ef ie ydoedd. Oblegid *holl addewidion Duw ynddo ef ydynt ïe, ac ynddo ef, Amen*, er gogoniant i Dduw trwom ni." Oddiwrth y difyniadau hyn y mae'n amlwg mai athrawiaeth ac addewidion Duw yng Nghrist sydd anghyfnewidiol, ac nid ei berson ef ddim. Ac mor amlwg a hyn, ydyw oddiwrth dystiolaeth yr Ysgrythyrau, nad oedd person Crist ddim yn anghyfnewidiol, mwy na dynion eraill. Yr oedd yn cynhyddu mewn doethineb a chorpholaeth a ffafr gyda Duw a dynion—cafodd ei eni—bu'n agored i newyn a syched—i flino wrth deithio—yr oedd ganddo serchiadau a nwydau natturiol fel eraill—yr oedd wedi ei wneuthur *ymhob peth* yn gyffelyb iddynt—yr oedd yn wylo ac yn griddfan—bu fyw yn dlawd a marw yn boenus—ac yn awr byw ydyw etto. Ynfydrwydd yw dywedyd, fod person un o'r fath hyn yn anghyfnewidiol. Ond er mai cyfnewidiol oedd ef, yr oedd ei athrawiaeth yr un o hyd, addewidion Duw trwyddo i barhau yr un hyd dragywyddoldeb. Trueni yw fod dynion yn treulio cymmaint o'u hamser ynghylch person yr Iesu, yn lle chwilio am ei wirionedd, y bu ef fyw a marw i'w sefydlu. Adderchogrwydd person yr Iesu sydd yn dallu dynion yn bresennol, ond adderchogrwydd gwybodaeth Crist oedd wedi ennill calon Paul; ac yr oedd yn cyfrif pob peth yn dom ac yn golled er mwyn hon. Ac i'r neb sydd wedi ei chanfod, felly y mae hi etto befyd—nid oes cyffelyb iddi'n bod.

Dr. John Owen—"Nid yw'r Apostol yn llefaru yn hollol am berson Crist, ond mewn perthynas i'w swydd a'r cyflawniad o honi."

Dr. Wells.—"Iesu Grist, yr hwn o ran ei addewidion a'i athrawiaeth, yr un ddoe, heddyw, ac yn dragywydd."

Felly *Whitby* a *Pyle*.

Limborch.—"P'un ai wrth Iesu Grist y mae i ni ddeall *athrawiaeth* Crist, fel y mae yr ymadrodd yn cael ei arfer yn fynych yn yr ail bennod o'r Colossiaid; neu Iesu Grist ei hun o ran ei *swydd* a'r athrawiaeth a daenodd, yr un yw meddwl yr ymadrodd * * * * Mae *ddoe* yn arwyddocau yr amser oedd wedi myned heibio oddiar pregethiad cyntaf yr efengyl; *heddyw*, yr amser yr ysgrifenwyd y llythyr hwn; *yn dragywydd*, yr amser i ddyfod heb un olwg ar ei derfynau: y meddwl yw nad oedd un cyfnewidiad wedi, nac i gael ei wneuthur yn athrawiaeth Iesu Grist."

Beausobre a L' Enfant.—"Os yw'r geiriau hyn yn cyfeirio at yr adnod

flaenorol, y meddwl yw, fod Iesu Grist bob amser yr un—bob amser yn byw i gynorthwyo ac achub y credinwyr Hebreaidd * * * Os yw'r ymadrodd hyn yn cyfeirio at yr adnod ganlynol, gall y geiriau arwyddocau fod athrawiaeth yr Iesu bob amser yr un—bob amser yn anghyfnewidiol; ac na ddylai athrawiaethau newyddion gael eu gwrando."

Dywed *Estius* nad yw'r gair "heddyw" byth yn arwyddo tragwyddoldeb yn yr Ysgrythyrau, ac y byddai yn fwy *simple* i esponio y rhan hon am ddyndod Crist.

Dywed *Calvin* fod yr Apostol yn ymresymu—nid ynghylch hanfod dragywyddol Crist, ond ynghylch yr adnabyddiaeth o hono ef a ffynodd ymhob oes ymhlith y cyfiawn, a'r hon oedd sylfaen barhaus yr eglwys.

Wel, gan fod y Trindodiaid eu hunain yn rhoddi'r adnod hon etto i fynu, gwnaf finnau yr un peth, ac âf ymlaen at yr hya a elwir.

EI ORUWCHAFIAETH HOLLOL.

Ioan iii. 31,—"Yr hwn a ddaeth oddi uchod sydd *goruwch pawb oll*, yr hwn sydd o'r ddaear, sydd o'r ddaear, ac am y ddaear y mae yn llefaru; yr hwn sydd yn dyfod o'r nef sydd *goruwch pawb*."

Yr Argument Drindodaidd.—"Yma y mae y Bedyddiwr yn cydmaru ei ddechreuad ef â'r eiddo Crist, yr hwn oedd *oddi uchod*, tra yr oedd ef o'r ddaear. Mae tarddiad Crist gan hynny yn ddwyfol; tra yr oedd yr eiddo Ioan yn ol dull dynion craill. Y mae Crist hefyd uwchlaw pawb—uwchlaw Ioan a phob Prophwyd arall, a phob creadur. Priodoliad amlwg o dduwdod."—*Holden.*

Y mae'n amlwg nad yw'r geiriau i'w cymmeryd yn eu hystyr helaethaf, onide, byddai Crist felly goruwch Duw ei hun, sef, y Tad; yr hyn sydd wrthuni amlwg. Y mae dyfod oddi uchod yn arwyddocâu yr un peth a dyfod i waered o'r nef, ymadrodd sydd yn arwyddocau ei fod wedi derbyn awdurdod oddiwrth Dduw, neu mai cenhad awdurdodedig Duw oedd yr Iesu; megys hefyd y dywedir am Ioan—"Yr ydoedd gwr wedi ei ddanfon *oddiwrth Dduw*, a'i enw Ioan;" am ddisgyblion Crist—"*Fel* yr anfonaist fi *i'r byd*, *felly* yr anfonais innau hwythau *i'r byd*." Awdurdod dwyfol a feddylir, fel yr ymddengys ym mhellach oddiwrth Mat. xxi. 23—27; "Ac wedi ei ddyfod ef i'r deml, yr archoffeiriaid a henuriaid y bobl a ddaethant atto, fel yr oedd ef yn athrawiaethu, gan ddywedyd, Trwy ba *awdurdod* yr wyt ti yn gwneuthur y pethau hyn, a phwy a roddes i ti yr *awdurdod* hon? A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Minau a ofynaf i chwithau un gair, yr hwn os mynegwch i mi, minau a fynegaf i chwithau trwy ba awdurdod yr wyf yn gwneuthur y pethau hyn. Bedydd Ioan, o ba le yr oedd? Ai o'r *nef* ai o *ddynion*? A hwy a ymresymasant yn eu plith eu hunain, gan ddywedyd, os dywedwn o'r NEF, efe a ddywed wrthym, paham gan hynny nas credasoch ef? Ond os dywedwn o ddynion; y mae arnom ofn y bobl, canys y mae pawb yn cymmeryd Ioan megis PROPHWYD." Felly bod o'r Nef a bod yn Brophwyd, oeddynt ymadroddion o'r un meddwl yn gymmwys.

Yn awr, gan mai bod yn brophwyd, yw bod neu ddyfod o'r nef, hawdd yw gweled meddwl yr ymadrodd "*goruwch pawb oll.*" Sef, yw hynny, fod Iesu yn brophwyd mwy rhagorol na'r holl brophwydi i gyd; uwch na Moses, Isaia, Jeremiah, ie nag Ioan ei hun hefyd, er mai'r mwyaf ym mhlith plant gwragedd oedd ef. Yn yr ystyr hyn y mae meddwl cryf yn yr ymadrodd,

ond yn yr ystyr arall y mae yn wrthuni noethlymyn. At hyn ychwaneger fod digon yn y bennod hon ei hun, heb achos wrth ragor, i wrthbrofi Duwdod Crist, er ei fod goruwch holl genhadon Duw. Adn. 30,—"Rhaid yw iddo ef GYNHYDDU, ac i minau *leihau*;" 31, 32,—"Yr hwn sydd yn dyfod o'r Nef sydd goruwch pawb, a'r hyn a *welodd* ef ac a *glywodd* y mae efe yn ei dystiolaethu;" 34, "Yr hwn a *anfonodd* Duw sydd yn llefaru *geiriau Duw*; oblegid *nid wrth fesur* y mae Duw yn rhoddi iddo ef yr YSPRYD." Pa'm y mae ef goruwch pawb? Am mai nid wrth fesur y rhoddodd Duw yr ysprydiddo. 33,—"Y mae'r Tad yn caru'r Mab, ac efe a *roddodd hob peth* yn ei law ef." Pa'm, meddaf etto, oedd ef goruwch pawb; O herwydd i'r Tad *roddi pob peth* yn ei law ef. A oedd yn bossibl fod Ioan yn meddwl fod Iesu Grist yn Dduw goruwch pawb, ag yntau yn dywedyd fod yn rhaid iddo *gynhyddu*!—mai yr hyn a *welodd* ac a *glywodd* oedd yn dystiolaethu; fod y Tad wedi ei *anfon*—iddo roddi yr *ysprydiddo* nid wrth fesur—wedi rhoddi *pob peth* yn ei law ef? Ambossibl, !

Grotius.—"Yr hwn a ddaeth oddi uchod—Yr hwn a ddaeth gyda gallu eglur ddwyfol. Ni wnaeth Ioan ddim gwyrthiau, gan hynny yr oedd Iesu Grist yn fwy arddechog nag ef." *Le Clerc*, yn lled debyg.

Rosenmuller.—"Mab mwyaf derchafedig Duw; ymhell uwchlaw yr holl brophwydi a'r cenhadon dwyfol oll."

Dr. Adam Clarke.—"Uwchlaw Moses a'r prophwydi, a minnau (Ioan Fedyddiwr)."

Macknight.—"Y mae yn berson o anfeidrol mwy urddas na mi, yn meddu ar adnabyddiaeth lawer mwy agos o'r ewyllys ddwyfol, ac y mae y datguddiedigaethau y mae'n wneud o honi, yn rhagori cymmaint ar yr eiddof fi, ag y mae'r nefoedd yn rhagori ar y ddaear." Felly hefyd Grotius, Hammond, Bengel, Kuinoel, Boothroyd, ac eraill. Ond wele ddigon i ddangos hyd a lled yr *uwchafiaeth hollol* a fynn rhai gasglu oddiwrth eiriau na amcanwyd erioed mo honynt i fod yn sail i'r fath dyb ofergoelus. Ond y mae fy mhapur yn dangos i mi y terfyn, a'i bod yn bryd i mi daflu'm pin i lawr.

Yr eiddoch ynte,

Cefn. O. EVANS.

"AMDDIFFYNNYDD Y FFYDD."

"Y COEGION (buffoons) a gedwid gynt yn y tai mawrion, ac yn y llys brenhinol, dan yr enw *ffyliaid*, oeddent yr unig ddynion a feddai y fraint o dywedyd y gwir. Tebygol eu bod ar brydiau yn cael eu dodi i ddywedyd pethau yng nghlyw y mawrion, na allent gyda diogelwch, ddyfod trwy wefusau neb arall. Fel hyn, mae dywediad ffwl y llys* ar waith Harri VIII yn cael yr enw 'Amddiffynnydd y Ffydd,' gan y Pâb, yn wobr am ysgrifennu yn erbyn Luther. 'Harri ddaionus, amddiffyn di a minnau, y naill y llall, a gad lonydd i'r Ffydd i amddiffyn ei hunan.'"

Yn y *Christian Reformer* am Chwefror, 1825, y mae hynna,

J. JONES, Aberdâr.

---

* "Yr ydym yn dysynu *Southey's Book of the Church*, ii. 6."

ALPHA AC OMEGA.

ATTEB I OFYNIAD "YMOFYNYDD ARALL." (RHIF. AWST, TUDAL 191).

MR. GOLYGYDD,—Yr wyf yn barnu fod "Ymofynydd Arall," o Landudoch, wedi cael ei *gam-arwain*, pan y cymmerai yn ganiatäol (tudal 191) "fod yr Undodiaid yn credu mai y dyn Crist Iesu oedd yr 'Alpha ac Omega,' yr hwn a ddywedodd (Dad. xxi. 7.) 'Yr hwn sydd yn gorchfygu a etifedda bob peth; ac mi a fyddaf iddo ef yn *Dduw*, ac yntau a fydd i mi yn fab.'" Nis gwn am un ysgrifenydd Undodaidd ag sy'n dal mai Iesu Grist a feddylir wrth yr "Alpha ac Omega hwnnw" Ac felly mae'r gofyniad yn dychwelyd yn ol i'r hwn a'i gofynodd. Ond i beidio cymmeryd mantais o wall-eiriad—Yr wyf yn addef *nas gallasai* yr Iesu gyda "phriodoldeb" roddi y cyfryw addewid i neb, a llefaru yn ei berson a'i enw ei hun. Yn ol y dull proffwydoliaethol o lefaru, buasai hyny, feallai, yn ganiatäol. Ceir enghreifftiau, nid yn anfynych, yn yr Ysgrythyr, o'r dull hwnw o lefaru, lle y mae proffwydi yn addaw cyflawni y peth hyn neu'r llall; pan nad ydynt mewn gwrionedd ddim ond yn cyhoeddi hwriad ac addewid Duw i gyflawni y cyfryw beth. Er siampl, Deut. xxxi. 23.—"Efe (Moses) a orchymmynodd hefyd i Josua, fab Nun, ac a ddywedodd, Ymgryfyha ac ymmertha, canys ti a arweini feibion Israel i'r tir a *addewais* iddynt trwy lw; *a mi a fyddaf gyda thi.*" Yn awr mae'n amlwg mai *Duw*, ac nid Moses, oedd wedi "addaw trwy lw i roddi gwlad Canaan i feibion Israel," ac y mae mor amlwg â hyny mai presenoldeb Duw, ac nid presenoldeb Moses sy'n cael ei addaw yma i Josua. Llefaru'r oedd Moses *yn enw* yr Hollalluog Dduw. Yr un modd, *pe yr ymddangosai* oddiwrth y cysylltiad mai Iesu Grist oedd yr "Alpha ag Omega" a lefarodd y geiriau mewn cwestiwn, buasem, gyda chysoudeb, yn rhwym o ddeall, mai *nid yn ei enw ei hun*, y rhoddai yr Iesu yr addewid i'r credadyn—"Mi a fyddaf iddo ef yn *Dduw*, ac yntau a fydd i mi yn Fab;" eithr yn enw ei Hollalluog Dad, yr hwn a'i hordeiniodd ef i fod yn "Alpha ac Omega" yn yr oruchwyliaeth Gristnogol. Os gofynir, pa rawn sydd genyf dros hyn, heblaw fy mod yn ceisio cysoni yr adnod dan sylw a'm credd Undodaidd; attebaf yn fyr, Bod yr un addewid yn cael ei roddi i'r credadyn mewn amrafael fannau o'r Ysgrythyr; ond bob amser yn cael ei roddi gan Dduw, sef, y Tad. Ni ddarfu i'n Harglwydd Iesu Grist, ddim oll addaw y bydd ef yn Dduw i neb; nid yw'r Ysgrythyr mewn un man yn dywedyd ei fod ef yn "Dad" i'r credinwyr, na'u bod hwythau yn "feibion" iddo ef. Iaith y Testament Newydd, drwyddo, ydyw, mai "meibion i *Dduw*" yw y gwir Gristnogion, ac mai *brodyr* ydynt i Grist, a "chyd-etifeddion ag ef." Buasai yr ystyriaeth o hyn, yr wy'n addef, yn ddigon i foddloni fy meddwl i hyd yn oed pe na bai y cysylltiad yn eglur-ddangos, mai y Tad ac nid Crist, sydd yn rhoddi yr addewid—"Mi a fyddaf iddo ef yn Dduw, ac yntau a fydd i mi yn *fab.*" Ond *y mae'r* cysylltied yn dangos hyny yn eglur ac yn bendant; fel y mae'r Trindodwr enwog, Dr. Doddridge, yn cydnabod. Trwy gorff Llyfr y Dadguddiad y mae Duw a Christ yn cael eu gwahaniaethu oddiwrth eu gilydd trwy y teitlau gwahanol, "Yr hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfainge," a'r "Oen." Ac os darllenir y ddwy adnod flaenorol (adn. 5, 6.) fe welir mai nid "yr Oen;" eithr mai "Yr hwn oedd yn eistedd ar yr orseddfainge," sef, y Tad, oedd yr "Alpha ac Omega" hwnw a lefarodd y geiriau mewn cwestiwn.

Y mae'n sier fod y teitl "Alpha ac Omega, yn y llyfr hwn, yn cael ei gymhwyso i Dduw ac i Grist; i'r "Hollalluog," ac i'r "hwn a fu farw ac

y sydd yn awr yn fyw; i'r hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfaingc;" ac i'r hwn a wrthododd dderbyn addoliad, gan ddywedyd—"Gwel na wnelych; cydwas ydwyf i ti; addola Dduw." Ac nid ydwyf yn gweled anghysondeb yn hyny. Dangosodd Mr. O. Evans (tudal 132, rhif. Mehefin) yn bur helaeth, nad ydyw y teitl "Alpha ac Omega" ynddo ei hun, yn arwyddocau *tragwyddoldeb natur*, ac ei fod yn gymmwys i'r Cyfryngwr, y dyn Crist Iesu; ond nid ydyw yn canlyn nas gellir ei gymhwyso mewn cyffelyb, ond uwch ystyr i'r Bod Tragywyddol.

Sylwa *Wakefield* yn dda (*Inquiry* pp. 103, 104,) "Fod y geiriau yn Dat. i. 17, yn cael eu llefaru gan ein Harglwydd am dano ei hun; yr hwn, gan ei fod yn llefaru ac yn gweithredu trwy awdurdod ac *yn enw Duw*, fel ei gennad arbennig, sydd yn aml yn cael ei anrhydeddu yn yr Ysgrythyr a'r un teitlau a'i Dad. Rhaid mai meddwl yr Iesu yn y geiriau hyn oedd datgan, mai efe oedd dechreu a diwedd—sylfaen a chongl-faen—goruchwyliaethau crefyddol Duw tuag at blant dynion." * * *

Gwell etto, *Mr. Yates*, yn ol fy marn i. Gweler *Vindication of Unitarianism*, pp. 200, 201. "Pan y dywedir am yr Hollalluog, mai efe yw y *cyntaf* a'r *diweddaf*, y meddwl yw ei fod ef yn cyd-oesi a'r digwyddiadau cynharaf a'r diweddaraf yn y gadwyn fawr honno o achosion ac effeithiau, trwy ba rai y mae efe yn cyflawni ei gynghorion mawr a rhyfeddol. Y geiriau yn Dat. i. 17, a xxii. 13, ydynt eiddo Crist. Dylent gael eu hesbonio yn yr ystyr a roddasom i'r geiriau pan yn cael eu cyfleu i'r Bod Goruwchaf. Y peth y maent yn feddwl yw—Fod Iesu Grist yn cyd-oesi a'r digwyddiadau cynharaf a'r diweddaraf yn yr oruchwyliaeth honno ag y mae'r Hollalluog wedi ei osod ef yn Benaeth arni; ac ei fod yn ganlynol yn gymmwys i dderbyn holl anrhydedd, ac i gyflawni holl orchwylion a dyledswyddau, ei sefyllfa dra-derchafedig.

Gan obeithio y bydd yr ychydig sylwadau ammherffaith hyn o ryw gynhorthwy i "Ymofynydd Arall;" a chan ddymuno llwydd i bob ymofyniad am y gwir, yn Llandudoch, ac yn mhob Llan a lle pa bynag,

Ydwyf, &c.,

Awst 20, 1851. PHILALETHES.

EMYN I'R HOLL GENHEDLOEDD.

YR ARDDANGOSIAD MAWR YN LLUNDAIN, 1851. (*Cyfieithiad*).

Ar Dduw galwn yn ddigoll,
Tad a thŵr, a barnwr oll;
Ein gwir geidwad, nefol ben,
Treiglwn at ei orsedd wen.

Yn holl ryfeddodau'n byd,
Duw sy'n amlwg i'n o hyd;
Pob rhyw ddawn geir îs y nef,
Ddaeth o'i ddwyfol ddoniau Ef.

Pob medr gwych, pob rhyw ar waith,
Drwy anian dêr, y'mhob iaith;
Bri celfyddyd, maes a môr
Pob campus-waith bïawdd Iôr.

Meddwl ëang Duw ei hun,
Wnaeth fod meddwl yn y dyn;
I'r llewyrch hwn, Arglwydd mawr,
Arllwys gariad nef i lawr.

Gwel, O Dduw, dy blant y'nghyd,
Ddaeth o bob parth ar y byd;
Doeth gynhulliad—pawb yn un—
"Hedd drwy'r ddae'r, a lles i ddyn."

Boed ein bwriad tra bo'm byw,
Lesau'n brodyr, dynolryw;
Trwy wres cariad nefol cry',
Bendith f'om gan Dduw sydd fry.

—*Amserau.*

RHESTR o'r cyfryw eiriau ansathredig, gyda'u hystyron, ag a ddefnyddid yn y llythyr canlynol:—

Gwrthfamwstai.—*Anti-hysteric.*
Cyfnerthai.—*Corroborant.*
Agorai.—*Aperient.*
Gwirf.—*Alcohol.*
Glanberai.—*Detergent.*
Disborthiant.—*Atrophy.*
Pothellai.—*Blister.*
Gwirfdrwyth.—*Tincture.*

BRENHINES Y WEIRGLODD.

[*Queen of the Meadow.—Ulmaria*].

Glwys brydferthydd cloddiau lleithion y weirglodd yw y llysieuyn hwn; ei flodau melynwyn a fantellant ymylau y pawrdiroedd, yn misoedd Mehefin, Gorphenaf, ac Awst; a'u perarogl a hyfryda'r llanciau a'r llancesau pan fyddont yn cynhauafa y gwair. Y golof, yr hon sydd o liw pren *mahogany* tywyll; a dyf i o dair i bum troedfedd o uwchder, ac ymegyr yn ganghenau tua'r brig; y dail asgellog ydynt gyfansoddedig o ddarnau blaenfeinion yn ymuno yn gyplau wrth yr asen ganol, gyda man genddail rhyngddynt; blaen y ddalen a ffurfir o dri dernyu, yr hwyaf yn y canol, oll yn ymuno yn un yn y bôn, ac yn sefyll ar flaen yr asen ganol; eu lliw, o'r tu uchaf, sydd wyrdd melynaidd; ac arian-lliw o'r tu isaf. Y blodau ydynt fychain, ond aml; ac a safiant yn dyrau, ar flaen y canghenau. Y gwreiddyn sydd fawr a chaled, yn taflu o'i amgylch amryw fan linynau; ei liw sydd dywyll, a'i arogl sydd gryf, anhyfryd a pharhâus. Dwfr berwedig a dyn holl rinwedd y blodau, a chyfyd i fynu yn dra chyflawn yn y dystyllbair.

Cyfrifir y blodau yn wrthwenwynai, gan y tybir eu bod yn adloni y giau. Ymddengys i mi fod gwreiddiau y llysieuyn yn llawer grymusach cyffyr na'r blodau; ond gan nad oes un sylw wedi ei dalu iddynt, anhawdd yw gwybod eu rhinweddau. Ni fedd y dail ond blâs llysieuaidd yn unig.

BRENHINLLYS.

(*Basil—Ocimum.*)

Y brenhinllys sydd blanhigyn blwyddol a gyfodir mewn gerddi. Tyf yn golof ganghenog, gyda dail hirgrwn a'u blaenau yn rhedeg yn feinion, o liw gwyrdd gwelw, wedi eu lleü yn gyplau ar gymmalau y golof a'i changhenau. Y llysieuyn a fedd arogl cryf.

Y blodau ydynt fychain a gwynion, yn ymagor ar flaen y canghenau;—ei amser i flodeuo ydyw canol haf; anfynych yr aeddfeda yr hâd yn y wlad hon. Dywedir ei fod yn dda i lanhau yr ysgyfaint a'r brû. Y mae yn debygol yr arferid ef yn y *Basilicon ointment* yn yr hen amser; ond ni wnair felly yn awr.

BRESYCH—(*Colewort—Brassica*).
BRESYCH BENGRON—(*Cabbages—brassica sativa, capita alba*).
BRESYCH COCHION—*Red and Savoy Cabbages—brassica capitata rubra*).

BLODEU-FRESYCH neu BLODEUGAWL—(*Cauliflowers—brassica cauliflora*).

Meithrinir yr amrywiol rywogaethau hyn mewn gerddi, yn fwy at wasanaeth y gegin na'r cyffyrdy.

Y maent, ar y cyfan, yn anhawdd eu treulio; âc ni roddant ond ychydig o faeth; y blodeugawl yw y mwyaf hydraul o'r oll;—ni ddylai y sawl a flinir ag annhreuledd y cylla ddefnyddio fawr o'r naill na'r llall o honynt. O holl lysiau y maes, dywedir mai yr bresych yw y parotaf i fallu a phydru; ac yn y cyflwr hwnw, y mae yn hynod o adgas a ffiaidd.

Dyferwad o'r rhywogaeth goch a egyr y coluddion; a chyfrifir ef yn dra llesol i dyneru ac oeri y rhanau mewnol. Yn allanol cymmhwysir dail y bresych bengron yn fynych ar gignoeth pothellai, er oeri a chroeni y clwyf.

BRIALLU.

[*Primrose—Primula veris*].

Y neb a hoffa flodau cynnar Ebrill a Mai a adwaena y llysieuyn hwn; ei flodau melynlliw tlysion a brydferthant y cloddiau—taenant fentyll heirddion dros y llenyrch cysgodawl, a swynant feddwl yr anianydd â'u tegwch a'u harogl persawrus.

Defnyddir y gwreiddau, y dail a'r blodau. Y gwraidd a fedd archwaeth chwerw peroglus; a gyffelybir gan rai i *had anis*; ei sudd chredig a ddefnyddir fel trewlwch. O'r dail y darperir enaint neu eli

at wellhau clwyfau;— a dywedir ei fod yn un neillduol dda. Y blodau a fwydir mewn gwin neu wirf, ac a ddefnyddir rhag iselder ysbryd;—canmolir y gwirf-drwyth fel adlonydd y giaü.

BRIGAU'R TWYNAU.

[*Ladies' bedstraw—Gullium*].

Ei enwau eraill ynt—y felynllys, llysiau'r cower neu llysiau'r cwrdeb, am y gwnclid defnydd o hono gynt i gyweirio llaeth yn lle caul neu gylla lloi.

Ei gorsen bedrual, fain, lwydwineu ac unionsyth, a dyf i dair troedfedd neu fwy, o uwchder; ymegyr yn ganghenau, llawn cymmalau; ac ar bob un o naddunt y tyf ddail bychain a llyfnion; ar frig y canghenau y tyf tyswau o flodau melynion—pob blodyn yn gynwysedig o bedair o flodeu-ddail bychain; eu harogl sydd gryf a dymunol: yr had sydd fychain a duon—yn debyg i had pabi, wedi cu cysylltu yn gyplau. Y gwraidd cochliw a ymdaena hyd y gweryd, megis cynnifer o fan linynau. Rhai colfau i'r llysieuyn a oleddant tua'r ddaear, gan wreiddio ar ben pob cymmal. Y mae gwahanol rywogaethau o hono, yn amrywio yn lliw a nifer y blodau, praffder y colfau a maintioli y dail:—tyf y ddau rywogaeth ar weirdir sych neu wlyb, blodeuant yn Mai, aeddfeda'r hâd yn Mehefin. Ei ansawdd benaf ydyw surni; try ei sudd liw asur llysieuaidd yn goch, ceula laeth &c. Y mae dyferwad cryf o hono mewn dwfr a gwinegr yn llesol i olchi ysigiadau a chymmalau blinedig. Gynt cyfrifid iddo rinweddau mawrion at symmud a chwalu graian o'r arenau a'r bledren; ond, a barnu yn gydweddol, gellir ei ystyried yn debycach o achosi y cyfryw anhwylderau na'u symmud.

BRIW'R MARCH.

[*Vervain—Verbena*].

Tyf yn ddail hirion a llydain, gyda dwfn doriadau ar yr ymylon, lliw gwyrdd-dywyll o'r tu uchaf, a llwydwyrdd o'r tu isaf. Y gorsen bedrual a changhenog a dyf i ddwy droedfedd o uwchder; ar y brig y tyf tyswau o flodau gwepiog a bychain, wedi eu lleü y naill uwch y llall yn llowethau cyfrodedd, eu lliw sydd lâs a gwyn cydgymmysg, canlynir hwynt gan hadau bychain, yn gauedig mewn cibynau hirgrynion; y gwraidd sydd fychan. Tyf ar hen furiau a chloddiau cysgodol; blodeua yn Mehefin.

Dyma un o'r llysiau a hollol esgeulusir oblegid ofergoelion ein henafiaid o berthynas iddo. Gynt byddai yn cael ei wisgo fal sŵyn rhag pob clefyd, haint ac anhap, a chyfrifid hyny yn ddigonol i wrthsefyll holl hûd ac ystryw y Fâll fawr ei hun:—o'r herwydd, un o'i enwau ydyw Cas-gan-gythraul.

Dichon fod iddo rinweddau gwirioneddol, ond fe'u cuddir a mantell o ofergoeledd, mor hollol, fel mai anhawdd iawn yw penderfynu i ba beth y mae yn llesol. Pa fodd bynnag, canmolir ef rhag anhwylderau y rhanau mewnol, megis y ddueg, yr afu, y cylla a'r ysgyfaint.

BRIWEG Y CERIG.

[*Least houseleek—sedum minimum acre*].

Enwau ereill y llysieuyn hwn ynt—llysiau'r muroedd, pybyr y fagwyr, y friweg, llysiau'r tostedd &c.

Tyf ar hen furiau a chloddiau cerig; y dail ynt fath o ddarnau crynion trwchus, yn gorwedd yn gydwastad ar gorsen ymlysgol oddiamgylch ogylch iddi, nes ymddengys o faint bys bach dyn; eu lliw sydd wyrdd dwfn. Ar flaen y golof, tua diwedd Mai, y saif blodau melynion. Y dail ydynt wyrddion trwy'r gauaf.

Cymmeradwyir y llysieuyn rhag yr ysgyrfi a chlefydau ereill a achosir gan anmhuredd y llifnoddau. Mae yn llysieuyn gwerthfawr i'r tyddynwr, at symmud ymaith y carchar dwfr ar ei anifeiliaid. Dywedir ei fod yn llesol, a'i ddefnyddio yn eli, rhag clefyd y brenhin, a chlwy'r marchogion, ar ddyn; ond nid oes profion digonol o'i rinwedd yn yr achosion hyny ar gael.

D. L. M.

SEBON.

(Parhad o tudal 188).

Y MAE gwneuthuriad sebon o bwys mawr mewn masnach, yn gystal ag yn ei berthynas âg iechyd a glanweithdra; ac y mae y defnyddiad o hono yn arwydd o wareiddiad. Y mae pum' math neu chwech yn cael ei wneuthur yn y wlad hon. Fe wyddis yn dda na wna brasder neu wêr ymgymmysgu â dwfr, os na bydd rhyw beth arall wedi ei ddodi attynt. Y rhyw beth arall hwn a elwir gwrthsur; a thrwy gymmysgiad o frasder a gwrthsur y gwneir sebon. Y mae amrywiol fathau o wrthsur, dau o ba rai a arferir yng ngwneuthuriad sebon, trwythludw *(potash)*, a halod *(soda)*. Mae rhai planhigion yn cynnwys halod, mewn rhai mannau, megis Hungari a'r Aipht; y mae i'w gael yn y ddacar; gwnaed llawer iawn unwaith yn yr Hispaen trwy losgi môrchwyn, ac a werthid dan yr enw *barrilla*; ac yn Scotland hefyd, lle y gelwid ef *kelp*. Ond y mae y rhai hyn yn ammhur i raddau mwy neu lai, ac anaml iawn yr arferir hwynt yn awr, am fod math rhatach a gwell yn cael ei wneuthur o halen cyffredin. Er pan y cymerwyd y dreth oddi ar halen, yn 1825, y mae math pur iawn o wrthsurhal *(carbonate of soda)*, yn cael ei wneuthur o hono, ac un fantais o'r arferiad o hono, ydyw, fod yr arogl ffiaidd oddi wrth y trwyth yn llawer llai nâg yr oedd gynt yn y gweithfeydd sebon.

Y mae *carbonate of soda* yn cynnwys tagdawch *(carbonic acid)*: symmudir hwn trwy ei gymmysgu a chalch, yna tywalltir dwfr drosto i ffurfio trwyth; ac y mae hwn wedi hynny yn cael ei gario i ferwadur copr mawr wedi ei ddarparu at hynny mewn gweithdau sebon. Rhoddir swm o wêr gyd a'r trwyth yn y berwadur, o ddeg i bumtheg cant o bwysau o'r naill, ac o 200 i 300 o alwyni o'r llall, y rhai a roddant oddeutu tunnell o sebon. Berwir y cwbl gyd a'u gilydd am o ddeutu pedair awr, ac fe geir yn gyffredin, erbyn yr amser hwnnw, eu bod wedi cymmysgu a'u gilydd, a'r brasder wedi ei droi yn sebon. Tynnir ymaith y tan, a rhoddir amser iddo oeri; mae y trwyth yn cael ei godi ymaith, a thrwyth ffres yn cael ei roddi, yr hyn a ddilynir gan ferwad arall, ac felly ym mlaen deirgwaith neu bedair, a thu a'r diwedd teflir ychydig halen, i gynnorthwyo ysgariad y sebon. Wedi hynny, diffoddir y tan; gadewir y sylwedd toddedig i sefyll am ychydig amser, ac wedi hyn byddis yn ei gario ymaith mewn ystycciau mawrion, a thywelltir ef i *frames*, y rhai ellir eu cydmaru i bydewau pren, o dair i bedair troedfedd o hyd, pymtheg modfedd o led, a deg neu ddeuddeg troedfedd o uchder: fe ddeil rhai o honynt amryw filoedd o bwysau. Bydd y sebon yn sefyll yn y rhai hyn am ddeu-ddydd neu ychwaneg, hyd nes y byddo wedi caledu, yna codir ymaith y *frames* pren, torrir y syppiau yn ddarnau oddeutu tair modfedd o led; a phan dorir y rhai hyn ar eu traws, y maent yn ffurfio y barrau a werthir yn y siopau. Wedi cael eu torri yn y ffordd hon, y maent yn cael eu selio i fynu yn dasau i sychu ychwaneg.

Y mae hyn yn ddarluniad cyffredinol o wneuthuriad pob math o sebon, oblegid yn eu defnydd y maent hwy yn bennaf yn gwahaniaethu. I wneuthur y sebon gwyn goreu, nid arferir dim ond y gwer puraf a goreu, ac weithiau olew olewydd. Mae sebon brith yn cael ei wneuthur o'r fath fwyaf cyffredin o wer, a gwneir y brithni ynddo trwy dywallt trwyth cryf iawn iddo, a'i droi pan fyddo ar fin cael ei gymmeryd allan o'r berwadur. Gellir rhoddi gwahanol liwiau iddo yn y ffordd hon. Mae sebon melyn yn gofyn gwahanol gymmysgedd—gwer, gyda chryn lawer o ystôr, wedi ei falu yn fan, ac ychydig iawn o olew y balmwydden. Ni ddylai y fath oreu o sebon melyn gynnwys dim mwy na'r bedwaredd ran o ystor; a phan dorir ef bydd yn meddu lliw awyriog disglaer, yr hwn a achosir gan mwyaf gan olew y balmwydden. Mae yn gwneuthur gwell trochion na'r sebon brith. Pa fodd bynnag, os bydd gormod o ystor, a rhy fychan o wer ynddo, y mae yn ddrwg, yn llidio y croen, ac yn neillduol o niweidiol i'r gwlanenni a olchir ag ef. Dylai y rhai sydd yn prynu sebon gofio yn wastad nad yw y peth isel bris byth yn rhad; y mae y gwer mwyaf drewllyd y rhan amlaf yn cael ei ddodi

gydag ystor i wneuthur sebon melyn, a pha fwyaf cyffredin y byddo, mwyaf yn y byd sydd o ddwfr ynddo; ac felly y mae y rhai sydd yn prynu sebon am bedair neu bump ceiniog y pwys yn talu yn ol hynny am y dwfr sydd ynddo

Mae y sebon *Windsor* goreu yn cael ei wneuthur o naw ran o wer, ac un o olew olewydd a thrwyth *soda*. Mae y perarogl yn wastad yn cael ei roddi pan fyddo yn cael ei doddi. Defnyddir bloneg at ryw fath o sebon; mae yn dra gwŷn a meddal, a dewisir ef at eillio. Mae llawer math o'r sebon yma, o wahanol enwau, lliwiau, ac arogl, i foddhau y prynwyr.

Gwneir sebon meddal o drwyth *potash* ac olew, *Soda* ydyw y gwrthsur a arferir yn wastad at sebon caled; a *potash* at beth meddal. Nid yw y trwyth yn cael ei ddidoli oddiwrth hwn wedi ei ferwi, fel y gwneir mewn sebon arall; a dywedir bod ei wneuthuriad yn fwy anhawdd ac yn gofyn mwy o ofal. Fe wna dau cant o bwysau o olew, a deuddeg pwys a thriugain o *potash* a'r trwyth, wneuthur agos i bump cant o bwysau o sebon. Y fath fwyaf drewllyd o olew a arferir amlaf, ac y mae ymddangosiad resinaidd y sebon meddal yn cael ei achosi trwy fod swm fechan o wer yn cael ei gymmysgu ag ef, ac yn ffurfio yn ronynau bychain tra yn berwi. Yr olew puraf a ddefnyddir i'r mathau goreu.

Y mae sebon meddyginiaethol hefyd yn bod—rhai wedi eu cymmysgu âg arian byw a mettaloedd eraill. Y mae un wedi ei wneuthur o olew olewydd, a phlwmrwd *(oxide of lead)*, a'r canlyniad ydyw diachylon, sydd mor adnabyddus fel eli. Mae cymmysgedd o olew a dwfr calch yn rhinweddol iawn at losgiadau. Cedwir y peth wrth law yn wastad mewn rhai gweithfeydd haiarn, i fod yn barod erbyn y digwyddiadau a gymmerant le mor aml. Gwneir sebon Castile o soda a'r olew olewydd goreu, wedi ei fritho trwy gymmysgedd o haiarnrwd. Defnyddir y fath buraf i wneuthur pills; effeithiant i ryddhau y corph, a phan y byddo gormod o surni yn y cylla; ac y mae yn cael ei arfer weithiau gyda *Carbonate of soda* at y gymmalwst, &c.

Mae sebon meddal hefyd, pan fyddo wedi ei wneuthur o'r defnyddiau puraf, yn werthfawr iawn at ddibenion meddyginiaethol. Mae rhai mathau o afiechyd yn y croen, crach, a marchwreinyn, *ringworm*, yn cael eu meddyginiaethu yn well drwyddo nâ'r elion gweraidd a arferir mor aml. Bydd y rhai olaf yma yn gwneuthur yr anhwyldeb yn waeth trwy achosi budreddi, tra mae sebon meddal yn tueddu i lanhau. Cymmysgir brwmstan ag ef weithiau i gynnorthwyo ei effeithiau meddygol, ond ni ddylid gwneuthur hyn oddieithr dan gyfarwyddid meddyg.

Y lleoedd pennaf y gwneir sebon ynddynt yn Loegr ydynt Llundain, Llerpwl, a Bristol, heblaw trefydd mawrion eraill. Gwneir llawer iawn yn yr Iwerddon hefyd.

Yn 1711 y dodwyd treth ar sebon gyntaf; ceiniog y pwys ydoedd hi ar y cyntaf; codwyd hi yn 1782 i 2½c.; ac yn 1816 i 3c. Am flwyddyn neu ddwy wedi dodi y dreth drom olaf yma, fe gododd pris y sebon i £82 y dunnell; a'r canlyniad fu i fudreddi ac aflendid gynnyddu ym mhlith y dosparth weithiol. Yn 1833, gostyngwyd y dreth i 1½c. y pwys ar Sebon caled, a 1c. ar sebon meddal, a hyn ydyw hi yn awr. Ond yr ydys yn gobeithio y gellir dileu y dreth hon yn awr, ac felly fe gynnydda glanweithdra. Nid oes yr ûn dreth ar sebon yn yr Iwerddon, a dywedir fod llawer yn cael ei nwyddredu *(smuggle)* i Loegr o'r wlad honno, Mae gwneuthurwyr brethynau, lleiniau &c., yn ei gael yn ddidreth at eu gorchwyl.

Yn 1791 fe wnaed ym Mhrydain 43, 123,578 o bwysau o sebon caled, a 3, 842, 136 o sebon meddal, Yn y flwyddyn yn diweddu Ion. 5, 1850, yr oedd yn 179,984,552 o beth called, a 17,447,581 o beth meddal. Cyfrifir fod o 7 i 9 pwys yn cael ei arfer ar gyfer pob gwr, gwraig, a phlentyn yn y deyrnas. Nifer y trwyddedau i wneuthur sebon ydoedd, yn Lloegr, 152; yn Scotland, 23; yn Iwerddon, 152. Pris trwydded ydyw £4 y flwyddyn. Derbynir deos filiwn o bunnau yn flynyddol i'r cyllidau oddiwrth y dreth ar sebon, ac y mae ei wneuthuriad yn cymmeryd bob blwyddyn, 6,000,000 o dunnelli o wêr, 12,000 o dunnelli o olew y balmwydden, ac 20,000 o dunnelli o ystor.

D. T.

Llwyndafydd, Cei Newydd.

Haneston Cartrefol a Thramor.

YR ARDDANGOSIAD MAWR.

Lle i'w ryfeddu yw Llundain bob amser. I'r ymwelwyr o'r wlad nid oes darfod ar ei rhyfeddodau. Yn y misoedd diweddaf, diau fod llawer o gannoedd o filoedd, o bob gradd, ac o bob parth o'r wlad ac o'r Cyfandir, wedi ymweled a'r brif-ddinas; y rhan fwyaf o lawer ond odid am yr unig dro yn eu bywyd. Canolbwynt y tynfa cyffredinol oedd yr Arddangosiad Mawr. I'r ymwelwyr gwledig ymddangosai cylchoedd y *Bank* a'r prif heolydd, bob amser, fel rhyw ffair anferthol bob dydd, o foreu hyd hwyr. Ond y mis diweddaf, gallsai yr ymdeithydd o'r *Bank* i'r Palas Gwydr yn *Hyde Park*, feddwl braidd fod yr holl fyd wedi ymgrynhoi yn Llundain; a diau eu bod felly yn fwy nac erioed o'r blaen. Aethom ninau gyda'r lleill i weled y rhyfeddod mawr. Ac mor bell y buom o gael ein siomi fel y gallwn ddywedyd, nad a'r olygfa byth o'n côf. Ond ei desgrifio yn iawn, peth arall yw hyny. Y mae pawb ag sydd wedi gweled y Palas Gwydr a'i ryfeddodau, yn dwyn tystiolaeth, a ninau gyda hwynt, fod ei ryfeddodau yn annisgrifiadwy. Er bod yno dro ar ol tro, a syllu yn fanol ar y gwrthddrychau a arddangosir yno, y mae'r olygfa gyffredinol mor aruthrol a mawreddig, fel y mae bron yn annichonadwy cyfleu desgrifiad am ddim yn *neillduol* wedi'r cyfan. Bydd y Palas Gwydr yn agored hyd yr ail wythnos yn mis Hydref. Ar yr 11eg o Hydref ceuir y lle i fynu Ac yn mhen ychydig fisoedd wedi hyny, bydd megis breuddwyd a aeth heibio.

Y SENEDD.

Gollyngwyd y Senedd Ymherodrol gan y Frenhines yn bersonol, dydd Gwener, yr 8fed o Awst. Cawsom yr hyfrydwch o weled ei Mawrhydi a'r Tywysog Albert, y dydd hwnw, yn myned yn eu Teyrn-gerbyd tua Thŷ yr Arglwyddi, ac ar eu dychweliad. Yr oedd y Frenhines a'i phriod yn edrych yn wych dros ben. Yr oedd lluaws anferthol wedi ymgynull i'r olygfa, y rhai a roesawent ei Mawrhydi â'u bonllefau, fel yr oedd hi yn myned heibio.

Cyrhaeddodd ei Mawrhydi Dy yr Arglwyddi oddeutu chwarter wedi dau, yn nghanol rhuadau magnelau a sain udgyrn. Cyflwynodd Llefarydd Ty y Cyffiedin y cyfarchiad arferol, a thraddododd ei Mawrhydi yr Araeth Frenhinol; yn yr hon yr hysbysai ei bod yn rhyddhau yr Arglwyddi a Boneddigion y Senedd, o'u gwasanaeth, gan ddiolch iddynt am eu diwydrwydd. Dywedai ei bod yn parhau i gadw i fynu y cyweithasrwydd. mwyaf cyfeillgar â'r Galluoedd Tramor, gan gyfeirio at yr ymdrechiadau llwyddianus i leihâu caeth-fasnach, yn ngororau Affrica a Brazil. Cyfeiria'r araeth gyda boddhâd at y lleihâd a wnaed yn y trethi, yn enwedig trwy symud Treth y golau—at ysgrif y Teitlau Eglwysig—at y mesurau a ffurfiwyd tuag at wellhau Gweinyddiad Barn yn Llysoedd Cyfraith a Chyfiawnder, a Gweinyddiad cyllid tir y goron. Dywed ei Mawrhydi hefyd "ei bod yn dra boddâol i'w theimladau, ar achlysur ag sydd wedi dwyn llawer o ddynion tramor i'r deyrnas hon, i weled yr ysbryd o garedigrwydd ac ewyllys da a ffynai yn gyffredin." Yna gyda diolchgarwch i'r Hollalluog am heddwch a llwyddiant, terfynwyd yr eisteddfod yn ol y drefn arferol. Gellir dywedyd am eisteddfod 1851. os na wnaed ond ychydig ddaioni, na wnaed llawer o ddrwg ynddi ychwaith. Ni chaniateir lle nac amser i ni ddywedyd rhagor ar y pen yn bresennol.

Y CYFANDIR.

Cedwir tawelwch trwy wledydd y Cyfandir yn bresenol trwy rym y cledd. Ofnir bod amser terfysglyd etto yn aros Ffraingc. Ychydig fisoedd a ddengys. Mae lle i obeithio bod yr enwog Kossuth ar gâel ei ryddhau o'i garchar yr Nhwrci. Bydd yn dda genym yn ein nesaf allu hysbysu ei fod wedi cychwyn ar ei fordaith tua Lloegr neu'r Unol Daleithiau—Mae'r rhyfel rhyngom a'r Caffres yn mhell o fod wedi ei derfynu, ac y mae rhyfel newydd wedi ei ddechreu yn yr India Ddwyreiniol.

Marwolaeth.

Ar y 4ydd o Awst, o'r darfodedigaeth, yn 12eg mlwydd oed, Samuel, mab ieuengaf Mr. Evan Bowen, o Lloydjack Arms, Ystrad, Ceredigion. Yr oedd y trengedig yn blentyn o dymherau addfwyn; o feddwl cyflym; ac o genheddfau godidog. Ac er fod ei golli yn ergyd trwm i'w berthynasau a'i gyfeillion anwyl, hwy ddylent ymfoddloni yn yr ystyriaeth fod y cyfan er daioni. J. J.

AWDL.

ADFYFYRIAD YM MIN NOS.

GOLAU yr haul a giliodd,—yr huan
Gorheinyf fachludodd;
Tywyllwch a fantellodd,—
Gwyneb hygar daear do'dd.

Darfu y dydd a'i derfyn;
Sydd unwedd a diwedd dyn.

Dyn a gyfyd o'i febyd yn faban,
Ag o'i ororau gwawria yr huan,
Dyn i rwysgfawredd fyw-wedd ddaw'n fuan
'R haul pan gyfoda llona holl anian,
A dyn i'w fedd dyna'i fân—a i lawr
Yr haul goreu-wawr hyloyw ag eirian.

Ag odiaeth debyg wed'yn;
Ei ddydd-gwaith i ymdaith dyn.

Wele yr haulwen oleu ar hwyliaw,
O borth y dwyrain heb warth i daraw
Pelydrau bywiol eur-donnol danaw,
Mor ddewr ân rhago, mae'r ddae'r yn rhwygaw,
Dibaid maent yn tanbeidiaw—gwres yn lli:
Pwy na dawl oerni pan y dêl arnaw?

Gylch alban hefin E' drin adranau
Y ddaear drwyddi, diri' ei dorau,
Egyr o'i heigion, daw ffraethion ffrwythau,
Oll yn ddanteithiol, llesiol a llysiau
Mad i gyfansoddiadau,—dyn a mil,
O'r cawr i'r eiddil, îr ceir eu hurddau.

Dyn a dawl ymaith eilwaith ei olau
Gan lwyr agoryd byd o wybodau,
Mâl y main addwys ym mol y mynyddau,
Rhag mîn y gloywddur rhwyga mwn-gloddiau;
Berwa hwynt yn ei beiriau—a'u troi ma's
Trwy y tân eirias yn addas nwyddau.

A'r hygawr ager rhwyga yr eigion,
Heria ddyfnderoedd y moroedd mawrion,
Dyg yn drafnidawl ei fuddiawl foddion,
Ag yn gynt na'r gwynt bob rhyw helyntion,
Gwysia yn fwyndeg weision,—ddwfr a thân,
Ager* a thrydan‡ nodda newyddion.

Grymus yw'r hwylus haulwen,
Treiddiol a bywiol dros ben;
Etto mawr nerth a berthyn,
I'r treiddgar ddeallgar ddyn.

Beth welaf,—edrychaf draw,
Tirion fal tês yn taraw?

Taro mae yn naturiawl,—i'm meddwl
Am addysg dyddorawl,
'Nawr o'r ddau gawr rhagorawl,
"Bôd y Gan" a "Byd y Gwawl."

Byd y gwawl rhâdawl y rhodia,—'n aeddfwyn
Yn reddfau'r Gorucha',
Un mynyd oll ni cholla;
Creawdr doeth, creuadur da.

Er ei ddoniau, perffeithderau
Uchelderau, iach hwyl dirion;
Gad yn llonydd, mewn llawenydd,
O was ufydd, ei isafion.
Trais dig'wilydd, rhodres penrydd,
Unrhyw gerydd, an-nrhugarog;
Gwallus gellwair, d'rogan drygair,
Nod anniwair, nid yw'n euog.

Rhy foddlondeb, mewn ffyddlondeb,
Gyda gwyneb, gŵyd y gwanwr,
Rhodia'n union, wrth orch'mynion,
Iawn a thirion, ei wneuthurwr.

Ddyn, O ddyn! pryfyn prif-fawr,
Sy ddarn llwys, addurn y llawr,
Penaeth creadigaeth Duw,
Ag eurddawn ddelw y gwirdduw;
Dy aedd a gynysgaeddwyd,
A byw ddeall hyall wyd.
A elli yn ddigellwair,
Gael yr un clôd hynod air,
O fyw'n glau 'nol deddfau da,
Gwir iachus y Gorucha.'
Gado'n rhwydd bob dedwyddwch,
I'r egwan, a'r truan trwch,
Heb ymarfer digter du;
Garw ymosod gormesu,
Cadw'n ol isradôolion,
Mewn cyfyngder, breuder bron;
Cymmeryd mwyniant mantais,
Gorthrymu, trechu mewn trais,
A disgwyl gwall, llwyra' llid.
Ar gefn y gwan er gofid.
A hyn oll ond hen allweth
Golud y byd, gwaeled beth!
Cymmer addysg 'em rwyddaf,
Oddiwrth y glân huan haf;
Fel na bo gran euogrwydd,
Pan y daw y Pen i d'wydd,
I fynnu cyfrif uniawn,
Am a gaed a wnaed yn iawn,
Ni fyn Duw ond uniondeb—
"Y Iawn" ni wna yn enw neb.
Bucheddu'n dda glana glod,
Ettyb yn awr ymddattod;
Nid ymroi i droi mewn drwg,
A gweled dan ryw gilwg
Gyfiawnder gwâr un arall,
A'i roi i amdoi y dall.
Ar hyd y llwybrau rhodiwn,
Mal yr haul er mawl i'r hwn,
A'i dododd yn nodedig
O'm blaen, ar daen heb un dig,
A diau bydd ein diwedd,
Yn wynfyd hyfryd â hedd.

DEWI DAWEL.

Cwmdâ, Mehefin 16eg, 1851.

---

* Steam. ‡ Electricity.

Argraffwyd gan W. Leyshon, Penybont.